# Dogfennau Ategol - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Medi 2025

Amser: 09.50

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

# Hybrid - Pecyn atodol - papurau i'w nodi

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 4 Papurau i'w nodi

11.40

### 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Hawliau Cyflogaeth

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes - 11 Gorffennaf 2025

### 4.2 Marchnad Goch Tafod Glas Cymeradwy

(Tudalen 3)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 11 Gorffennaf 2025

### 4.3 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Data (Defnydd a Mynediad)

(Tudalennau 4 - 7)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 14 Gorffennaf 2025

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 4 Awst 2025

**4.4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalen 8)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 14 Gorffennaf 2025

**4.5 Blwyddyn Pump Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: Craffu ar y Bil Milgwn a'r Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr**

(Tudalennau 9 - 14)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes - 16 Gorffennaf 2025

Llythyr ymateb gan y Cadeirydd at y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes - 24 Gorffennaf 2025

**4.6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 43ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

(Tudalen 15)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 22 Gorffennaf 2025

**4.7 Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE**

(Tudalennau 16 - 17)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Arweinydd a Chyd-Gadeirydd y

Ddirprwyaeth i Senedd y DU-UE, Tŷ'r Cyffredin - 23 Gorffennaf 2025
(Saesneg yn unig)

**4.8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27**

(Tudalennau 18 - 46)

**Dogfennau atodol:**
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch - 23 Gorffennaf 2025
Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 20 Awst 2025
Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 20 Awst 2025
Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol - 20 Awst 2025

**4.9 Deiseb P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i fynd i'r afael â'r argyfwng COVID hir yng Nghymru**

(Tudalennau 47 - 48)

**Dogfennau atodol:**
Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 29 Gorffennaf 2025

**4.10 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Dilyniant i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 - Materion Gwledig**

(Tudalen 49)

**Dogfennau atodol:**
Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 31 Gorffennaf 2025

**4.11 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Dilyniant i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 – Materion Gwledig, Masnach Ryngwladol, yr Economi a Sgiliau**

(Tudalennau 50 – 52)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol – 1 Awst 2025

**4.12 Banc Datblygu Cymru**

(Tudalennau 53 – 56)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio – 4 Awst 2025

**4.13 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Dilyniant i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 – Economi**

(Tudalen 57)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio – 4 Awst 2025

**4.14 Gwaharddiad arfaethedig ar rasio milgwn yng Nghymru**

(Tudalennau 58 – 59)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Valley Greyhound Stadium – 8 Awst 2025 (Saesneg yn unig)

Llythyr ymateb gan y Cadeirydd at Valley Greyhound Stadium – 19 Awst 2025

**4.15 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Gweithgaredd Cynhwysiant Digidol yng Nghymru**

(Tudalennau 60 - 61)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 11 Awst 2025

**4.16 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant a'r Diwydiannau Creadigol**

(Tudalennau 62 - 63)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 12 Awst 2025

**4.17 Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

(Tudalennau 64 - 68)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes - 21 Awst 2025

Llythyr ymateb gan y Cadeirydd at y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes - 10 Medi 2025

**4.18 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

(Tudalennau 69 - 70)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 22 Awst 2025

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid

Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 16 Medi 2025

**4.19 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau): Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

(Tudalennau 71 - 75)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru - 29 Awst 2025

**4.20 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant**

(Tudalennau 76 - 77)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 2 Medi 2025

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 10 Medi 2025

**4.21 Porthladd Rhydd Ynys Môn**

(Tudalennau 78 - 79)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Reolwr Gyfarwyddwr Porthladd Rhydd Ynys Môn, Stena Line, a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn - 11 Medi 2025

**4.22 Bargeinion Dinesig a Thwf Rhanbarthol Cymru**

(Tudalennau 80 - 89)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Lywdoraeth Cymru a'r Swyddfa Gymreig, Tŷ'r Cyffredin - 17 Medi 2025

## 4.23 Ynni Prydain Fawr: Datganiad o Flaenoriaethau Strategol

(Tudalennau 90 - 91)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio – 16 Medi 2025

Eitem 4.1


**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565


Y Gwir Anrh. Elin Jones MS
Cadeirydd
Pwyllgor Busnes

11 Gorffennaf 2025

Annwyl Llywydd,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Hawliau Cyflogaeth**

Ar 8 Gorffennaf 2025, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, a gyfeiriodd y Pwyllgor Busnes at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 14 Gorffennaf.

Gosododd y Pwyllgor ei adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol ar 27 Mawrth 2025. Ar ôl trafod cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mwyaf diweddar yn ei gyfarfod ar 9 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor nad oedd digon o amser i gomisiynu cyngor cyfreithiol ac ystyried cynnwys y Memorandwm. Felly ni fydd y Pwyllgor yn gallu cyflwyno adroddiad ar yr achlysur hwn.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Cadeirydd, Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: HID PO 423 2025

Aelod o'r Senedd
Senedd Cymru

11 July 2023

Annwyl Gydweithiwr,

Ar 8 Gorffennaf, cynhaliais gyfarfod ford gron arall â chynrychiolwyr o'r diwydiant da byw i glywed eu barn am y Tafod Glas. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar y ffordd y mae marchnadoedd yn gweithredu a'r arwerthiannau stoc bridio sy'n cael eu cynnal yn yr wythnosau a misoedd nesaf.

Rwy'n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at drafodaethau'r ford gron a gallaf gadarnhau'r canlynol: o 14 Gorffennaf 2025 bydd marchnadoedd da byw yng Nghymru yn gallu gwneud cais i fod yn 'Farchnad Goch Tafod Glas Gymeradwy'.

Mae hynny'n golygu y byddan nhw'n cael gwerthu defaid a gwartheg wedi'u pesgi (o'r safon uchaf), gan gynnwys stoc o'r Parth dan Gyfyngiadau'r Tafod Glas yn Lloegr, i'w symud wedyn yn syth i ladd-dy dynodedig yng Nghymru (neu ladd-dy yn y Parth dan Gyfyngiadau yn Lloegr).

Ni fydd Marchnadoedd Coch Tafod Glas Cymeradwy na'r symudiadau wedi hynny i ladd-dy dynodedig yng Nghymru yn gofyn bod da byw yn cael eu profi cyn symud na'u brechu.

Byddwn yn diweddaru'r tudalennau perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Gorffennaf 2025

Annwyl Andrew,

Roedd adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Data (Defnydd a Mynediad) yn cynnwys argymhelliad i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar Ddigonolrwydd Data yr UE ac unrhyw oblygiadau y gallai'r Bil ei gael ar fasnach nes bod statws digonolrwydd y DU wedi'i sicrhau y tu hwnt i fis Rhagfyr 2025.

Mewn ymateb, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion hyn i'r Pwyllgor fel rhan o gyfarfodydd craffu Gweinidogol cyffredinol ac, ar adegau eraill, pan fo unrhyw beth arwyddocaol i adrodd amdano yn codi.

Ysgrifennaf i roi gwybod i'r Pwyllgor, fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi ar 24 Mehefin 2025, ei fod wedi mabwysiadu estyniad o chwe mis i benderfyniadau digonolrwydd data presennol yr UE ar gyfer y DU hyd at 27 Rhagfyr 2025.

Cynigiwyd yr estyniad i ddechrau gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mawrth 2025 i ganiatáu i'r Bil Data (Defnydd a Mynediad) basio trwy Senedd y DU a chafwyd Chydsyniad Brenhinol ar 19 Mehefin 2025. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd bellach yn asesu a yw fframwaith cyfreithiol newydd y DU yn parhau i ddarparu lefel ddigonol o amddiffyniad ar gyfer data personol. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi y bydd yn penderfynu a ddylid adnewyddu penderfyniadau digonolrwydd data yr UE ar gyfer y DU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tra bod yr asesiad hwn yn parhau, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU mewn perthynas â phenderfyniadau digonolrwydd data yr UE ar gyfer y DU drwy'r sianeli rhynglywodraethol priodol.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ddiweddaraf hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir

Rebecca

**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Copi at:
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Awst 2025

Annwyl Andrew,

Ysgrifennais fis diwethaf i roi gwybod i'r Pwyllgor fod y Comisiwn Ewropeaidd, ar 24 Mehefin 2025, wedi cyhoeddi ei fod wedi mabwysiadu estyniad o chwe mis i benderfyniadau digonolrwydd data presennol yr UE ar gyfer y DU hyd at 27 Rhagfyr 2025.

Fel y tynnais sylw ato yn y diweddariad hwnnw, roedd yr estyniad i ganiatáu i'r Comisiwn Ewropeaidd asesu a yw fframwaith cyfreithiol newydd y DU, sy'n cynnwys Deddf Data (Defnyddio a Mynediad) newydd 2025, yn parhau i ddarparu lefel ddigonol o amddiffyniad ar gyfer data personol.

Rwy'n falch o ddiweddaru'r Pwyllgor, ar 22 Gorffennaf 2025, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei fod wedi lansio'r broses i fabwysiadu dau benderfyniad digonolrwydd newydd ar gyfer y DU i ganiatáu llif rhydd data personol rhwng yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r DU. Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad bod fframwaith cyfreithiol y DU yn parhau i ddarparu mesurau diogelu data sy'n cyfateb i'r rhai a ddarperir gan yr UE. Os cânt eu mabwysiadu, bydd y penderfyniadau digonolrwydd newydd yn berthnasol am gyfnod o chwe blynedd.

Fel rhan o'r weithdrefn fabwysiadu, bydd y penderfyniadau drafft nawr yn cael eu trosglwyddo i'r Bwrdd Diogelu Data Ewropeaidd i gael ei farn. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn ceisio cymeradwyaeth gan bwyllgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae gan Senedd Ewrop hefyd hawl i graffu ar benderfyniadau digonolrwydd.

Tra bod y broses fabwysiadu hon yn mynd rhagddi, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn drwy'r sianeli rhynglywodraethol priodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ddiweddaraf hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Copi at:
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref - PO/HIDCC/0347/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

14 Gorffennaf 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ac yn dilyn fy llythyr dyddiedig 24 Mehefin, i dynnu at eich sylw at y **Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig** sy'n crynhoi'r trafodaethau yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Cymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.5

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

16 Gorffennaf 2025

Annwyl Andrew,

**Blwyddyn Pump Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: Craffu ar y Bil Milgwn a'r Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr**

Mae'r Pwyllgor Busnes yn ystyried yr amserlenni arfaethedig ar gyfer y Biliau i'w cyflwyno ym Mlwyddyn Pump Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Yn ein cyfarfod ar 15 Gorffennaf, trafodwyd y goblygiadau sy'n deillio o'r amserlenni arfaethedig ar gyfer gwaith craffu gan bwyllgorau a'r opsiynau ar gyfer cyfeirio'r Biliau at bwyllgorau cyfrifol.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn bwriadu cyflwyno dau Fil sy'n dod o fewn cylch gorchwyl Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ystod blwyddyn olaf y tymor hwn o'r Senedd. Y ddau Fil hyn yw'r Bil Milgwn a'r Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr.

Nodir y dyddiadau allweddol arfaethedig ar gyfer y ddau Fil isod ac mae'r amserlenni arfaethedig manwl wedi'u cynnwys mewn Atodiad i'r llythyr hwn.

| Bil | Dyddiad cyflwyno | Terfyn amser cyflwyno adroddiad Cyfnod 1 | Terfyn amser Cyfnod 2 | Dadl Cyfnod 3 arfaethedig | Cyfnod 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Bil Milgwn | 29 Medi 2025 | 5 Rhagfyr 2025 (8 wythnos eistedd) | 6 Chwefror 2026 | 10 Mawrth 2026 | 17 Mawrth 2026 |
| Y Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr | 20 Hydref 2025 | 19 Rhagfyr 2025 (7 wythnos eistedd) | 13 Chwefror 2026 | 10 Mawrth 2026 | 17 Mawrth 2026 |

Mae'r ddwy amserlen, fel y'u cynigir, yn cynnwys cyfnodau byrrach na’r cyfnodau safonol ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, gydag ond dwy wythnos o fwlch rhwng y terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1. At hynny, cynigir y bydd bwlch o wythnos rhwng y dyddiadau cau ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2, ac mae trafodion Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn wedi'u trefnu ar hyn o bryd i'w cynnal ar yr un diwrnod.

Yng ngoleuni'r gorgyffwrdd sylweddol rhwng y ddwy amserlen arfaethedig, mae'r Pwyllgor Busnes yn ystyried sawl opsiwn ar gyfer cyfeirio'r Biliau at y pwyllgor(au) cyfrifol.

Er mwyn ein helpu gyda'r ystyriaethau hynny, gwnaethom gytuno i ysgrifennu i ofyn am farn Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar yr amserlenni arfaethedig ar gyfer y Biliau ac a yw'n ymarferol ai peidio i'r Pwyllgor weithredu fel y pwyllgor cyfrifol ar gyfer craffu ar y ddau Fil, yng ngoleuni’r graddfeydd y bydd angen craffu arnynt ar yr un pryd.

Byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod eich barn.

Yn gywir,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad

**AMSERLEN ENGHREIFFTIOL – Y BIL MILGWN**

| Carreg filltir | Dyddiad |
|---|---|
| Cyflwyno'r Bil yn y Senedd | 29 Medi 2025 |
| Terfyn amser ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor | 5 Rhagfyr 2025 |
| Diwedd Cyfnod 1 - Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol a chynnig ar benderfyniad ariannol (os oes angen) | 16 Rhagfyr 2025 |
| Dechrau Cyfnod 2 | 17 Rhagfyr 2025 |
| Y dyddiad cynharaf posibl ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 | 12 Ionawr 2026 |
| Diwedd Cyfnod 2 - dyddiad cau ar gyfer Cyfnod 2 mewn Pwyllgor | 6 Chwefror 2026 |
| Dechrau Cyfnod 3 | 9 Chwefror 2026 |
| Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn | 10 Mawrth 2026 |
| Cyfnod 4 yn y Cyfarfod Llawn | 17 Mawrth 2026 |
| Cydsyniad Brenhinol | Ebrill 2026 |

**AMSERLEN ENGHREIFFTIOL – Y BIL RHEOLEIDDIO LLETY YMWELWYR**

| Carreg filltir | Dyddiad |
|---|---|
| Cyflwyno'r Bil yn y Senedd | 20 Hydref 2025 |
| Terfyn amser ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor | 19 Rhagfyr 2025 |
| Diwedd Cyfnod 1 - Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol a chynnig ar benderfyniad ariannol (os oes angen) | 13 Ionawr 2026 |
| Dechrau Cyfnod 2 | 14 Ionawr 2026 |
| Y dyddiad cynharaf posibl ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 | 4 Chwefror 2026 |
| Diwedd Cyfnod 2 - dyddiad cau ar gyfer Cyfnod 2 mewn Pwyllgor | 13 Chwefror 2026 |
| Dechrau Cyfnod 3 | 16 Chwefror 2026 |
| Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn | 10 Mawrth 2026 |
| Cyfnod 4 yn y Cyfarfod Llawn | 17 Mawrth 2026 |
| Cydsyniad Brenhinol | Ebrill 2026 |

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gw. Anrh. Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

24 Gorffennaf 2025

Annwyl Lywydd,

**Blwyddyn 5 o Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: Craffu ar y Bil Milgwn a'r Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr**

Diolch i chi am rannu'r dyddiadau allweddol arfaethedig ar gyfer y Bil Milgwn a'r Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr. Rwyf wedi trafod eich llythyr â'r Pwyllgor, ac nid ydym yn credu y byddai'n bosibl cynnal gwaith craffu digonol ar y ddau fil, o ystyried yr amserlen arfaethedig.

Hoffwn hefyd godi pryderon ynghylch y Cyfnod 1 byrrach a arfaethir ar gyfer y ddau fil. Yn realistig, i bwyllgor gadw at y dyddiad cau a gynigir yn y llythyr ar gyfer cyflwyno adroddiad, ni fyddai ganddo ond tair wythnos i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Rhan allweddol o rôl y Pwyllgor o ran craffu deddfwriaethol yw casglu barn a safbwyntiau partïon â chanddynt fuddiant ac adlewyrchu'r rhain yn yr adroddiad Cyfnod 1. Ni fydd tair wythnos yn ddigon o amser i randdeiliaid ystyried y bil a chyflwyno ymateb llawn o ansawdd uchel, yn enwedig os ydynt yn sefydliadau cynrychioliadol ac mae angen iddynt ymgynghori â'u haelodau.

I liniaru sefyllfa o'r fath, byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi'r biliau drafft cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn gofyn am i ddrafft preifat cynnar o filiau gael eu rhannu â'r pwyllgorau y cânt eu cyfeirio atynt. Yna gallai'r pwyllgorau hynny rannu drafft o'r fath â'r rhanddeiliaid allweddol a nodir ganddynt, gan sicrhau bod gan y sefydliadau hynny gymaint o amser â phosibl i gyfrannu at waith y Pwyllgor.

Hoffwn hefyd ofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod swyddogion ar gael i roi sesiynau briffio technegol preifat i'r pwyllgorau cyn i bob bil gael ei gyflwyno. Byddai hwn yn gam anarferol iawn, ond

rwy'n credu ei fod yn angenrheidiol o ystyried yr amser cyfyngedig y bydd gan yr Aelodau i ystyried y biliau.

Bydd y ddau fesur hyn yn helpu i ddatrys y problemau sy’n deillio o gael amserlenni Cyfnod 1 eithriadol o fyr. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda’r mesurau hynny ar waith, rwy’n teimlo o hyd bod yr amserlenni arfaethedig yn rhy fyr ar gyfer gwaith craffu o’r ansawdd y byddwn yn ei ddisgwyl gan unrhyw un o Pwyllgorau’r Senedd.

Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno â mi fod craffu o ansawdd uchel yn rhan hanfodol o’r broses ddeddfu a bod hynny’n creu deddfwriaeth o ansawdd gwell. Rwy'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynllunio ei rhaglen ddeddfwriaethol pum mlynedd yn ddigon da i roi digon o amser i bwyllgorau gyflawni ein rôl a chynnal gwaith craffu'n priodol ar ei deddfwriaeth arfaethedig.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/FM/0337/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Gorffennaf 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, i'ch hysbysu fy mod wedi mynychu 43ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Iwerddon a gynhaliwyd gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn County Down ar 12 a 13 Mehefin.

Hoffwn dynnu eich sylw at fy Natganiad Ysgrifenedig heddiw, ac at neges y Cyngor sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd.

Thema'r Uwchgynhadledd oedd '*Rôl Deallusrwydd Artiffisial mewn Diwygio a Thrawsnewid*'. Rhannais brofiadau Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiad i ddefnyddio technolegau AI i ddiwygio a thrawsnewid y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan dynnu sylw at ganllawiau a ddatblygwyd gan Gyngor Partneriaeth y Gweithlu Cymru.

Yn ystod yr Uwchgynhadledd, cefais gyfle hefyd i gynnal cyfarfodydd dwyochrog gyda nifer o arweinwyr o aelod-weinyddiaethau eraill y Cyngor.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gwir,

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.7

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Marsha De Cordova MP,
Leader and Co-Chair United Kingdom
Delegation to the UK-EU Parliamentary
Partnership Assembly,
House of Commons
London SW1A 0AA

23 July 2025

UK-EU Parliamentary Partnership Assembly: November 2025

Dear Marsha,

Thank you for notification of the dates of the next meeting of the PPA in November and for the invitation to suggest meeting topics for consideration by the Bureau. This early notification and opportunity to contribute ideas is greatly appreciated.

As we discussed in March, the effects of Brexit on the culture sector is a key area of concern for my committee. During a recent visit to Brussels, I was heartened to hear that the political pressure generated by the PPA and elected members on both sides was key to ensuring that references to cultural and artistic exchanges and touring artists were included in Common Understanding. Indeed, the Committee heard that these references would not have been included without the work of legislatures on this issue.

Whilst these references are welcome, the lack of concrete measures is disappointing, and I believe therefore it is crucial for the PPA to continue to encourage our executives to be as ambitious as possible in this area.

Unfortunately, a comprehensive agreement on touring artists may not be likely in the immediate term but there are a number of practical and pragmatic steps that could be taken in the interim. These could be usefully discussed and highlighted by the PPA to ensure that the UK and EU keep this issue on the table as the Common Understanding negotiations proceed. I would therefore kindly ask that this issue is considered as an agenda item for the next meeting.

My committee's report, Culture shock, provides an account of the TCA's effects on creative workers in Wales. It outlines our full support for the PPA's 2023 recommendation on this issue and puts forward possible next steps.

Senedd committees, including my own, will also be publishing a report on the implementation review of the Trade and Co-operation Agreement in August, and I look forward to discussing its conclusions and recommendations with Members at the PPA in November.

I look forward to our continued work together.

Yours sincerely,

Delyth Jewell MS

Chair

Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 4.8

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Vikki Howells AS
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

23 Gorffennaf 2025

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27**


Annwyl Lynne a Vikki,

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig o leiaf bythefnos cyn i chi ymddangos gerbron y Pwyllgor, a bydd y dyddiad ar gyfer hynny yn cael ei drefnu maes o law.

O ystyried y diddordeb a rennir ar draws pwyllgorau ynghylch rhai o'r meysydd a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, rwyf wedi anfon copi at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a’r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Atodiad A: Cais i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 2026-27

## Meysydd trawsbynciol

### Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb

Fel gyda'r blynyddoedd blaenorol, gofynnwn am esboniad clir a thryloyw o'r newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn gyffredinol yn 2026-27, o 2025-26, gan gynnwys cymhariaeth â'r wir gyllideb yn ychwanegol at unrhyw waelodlin ddiwygiedig a ddefnyddir. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi crynodeb o'r newidiadau allweddol rhwng 2025-26 a 2026-27.

Os defnyddir gwaelodlin ddiwygiedig, rydym yn gofyn am ddadansoddiad o'r symiau sydd wedi'u tynnu o gyllideb 2025-26 neu eu hychwanegu at gyllideb 2025-26 ac esboniad ym mhob achos pam y bernir ei bod yn briodol defnyddio'r waelodlin ddiwygiedig yn hytrach na'r wir gyllideb a osodwyd yn 2025-26 ar gyfer cymariaethau.

Ar gyfer newidiadau sylweddol i linellau cyllideb, hoffem gael eglurhad p'un a fydd cyllid yn cael ei ddychwelyd i/ei gymryd o gronfeydd wrth gefn canolog neu ei ddyrannu i/o linellau cyllideb eraill naill ai o fewn neu y tu allan i'r Prif Grŵp Gwariant.

### Manylion dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb ac esboniad o'r newidiadau

Gofynnwn am ddadansoddiad o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2026-27 yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, gyda dyraniadau Cyllideb Derfynol 2025-26, dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26, rhagolygon alldro 2025-26, ac alldro terfynol 2024-25 i gyd wedi'u cynnwys. Os yw cyllidebau dangosol yn cael eu gosod y tu hwnt i 2026-27, rydym yn gofyn am fanylion y rhai hynny hefyd. Yn y gorffennol, rydym wedi gofyn am sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg. Cyn y llynedd, darparwyd hyn mewn atodiad. Rydym yn nodi na ddarparwyd sylwebaeth ar wahân y llynedd a darparwyd y wybodaeth ym mhrif gorff y papur, ynghyd â thabl cyllideb yn Atodiad A a rhestr o newidiadau yn Atodiad B. Canfuom fod y dull hwnnw'n foddhaol a byddem yn fodlon â'r un peth eleni. Fodd bynnag, os oes unrhyw Gamau Gweithredu nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y materion y gofynnwyd amdanynt, byddem yn gwerthfawrogi esboniad o'r hyn y mae'r Camau Gweithredu hynny'n ei ariannu.

I gadarnhau, hoffem ddadansoddiad ac esboniad o newidiadau sylweddol i Gamau Gweithredu a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 (Mehefin 2025).

Os yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig at ddibenion cymharol, rydym yn gofyn i ddyraniadau gwirioneddol Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r dyraniadau cyllideb ddrafft 2026-27 yn ogystal ag esboniad o'r rhesymau dros ail-gyfrifo'r llinell sylfaen (fel y nodwyd yn gynharach).

## Blaenoriaethau addysg a blaenoriaethau strategol eraill

Gwybodaeth am sut mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cyd-fynd â blaenoriaethau perthnasol ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru – ac yn cael ei flaenoriaethu yn ôl y rheini – gan gynnwys:

- Asesiad wedi'i ddiweddaru gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch i ba raddau y mae'n credu bod y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cynnwys yr adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru.

- Gwybodaeth am unrhyw drafodaethau sy'n mynd rhagddynt gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i gynyddu lefel yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysg, gan gynnwys cyllid ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion drwy'r Setliad Llywodraeth Leol.

- Manylion ynghylch sut mae dyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn alinio â'r Rhaglen Lywodraethu.

- Yng ngoleuni cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ar 1 Gorffennaf y bydd cyllideb 2026-27 ond yn cynyddu cyllidebau adrannol yn ôl chwyddiant, yn hytrach nag adlewyrchu polisïau a blaenoriaethau newydd, sut mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi gallu ystyried materion sy'n dod i'r amlwg ac yn cynyddu ers gosod cyllideb 2025-26.

- A yw Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu targedu adnoddau at fynd i'r afael ag unrhyw themâu neu flaenoriaethau trawsbynciol ar draws y Prif Grŵp Gwariant yn ei gyfanrwydd, ac os felly, sut.

## Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

Yn unol ag asesu a roddwyd 'sylw dyledus' i erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), gofynnwn am:

- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant cyffredinol ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg drafft hwn ar gyfer 2026-27 sy'n nodi sut mae hawliau plant yn cael eu gweithredu yn y dyraniadau cyllideb hyn, gan gyfeirio at erthyglau penodol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sy'n berthnasol.

- Os na chynhaliwyd Asesiad penodol o'r Effaith ar Hawliau Plant, y rhesymau dros hyn.

- Copi o unrhyw asesiad arall o'r effaith integredig yn ogystal â sicrwydd bod yr asesiad hwn yn dangos bod y ddyletswydd o "roi sylw dyledus" i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i harfer.
- Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau cychwynnol o fewn y MEG Addysg yn dilyn ystyriaethau o hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ganlyniad i asesiadau effaith, neu lle mae'r asesiadau hyn wedi cael dylanwad uniongyrchol ar bennu cyllidebau.

## Costau deddfwriaeth

- Manylion y dyraniadau yng nghyllideb 2026-27 a fwriedir ar gyfer gweithredu deddfwriaeth sylfaenol a basiwyd yn ystod dau dymor diwethaf y Senedd, gan gynnwys Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU, er enghraifft y Bil Lles Plant ac Ysgolion.
- Goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2026-27.

## Effaith pandemig COVID-19

- Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth sy'n weddill yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2025-26 a 2026-27 ar gyfer delio ag effaith y pandemig ac adfer ohono, er enghraifft statws y cyllid "Recriwtio, Adfer, Codi Safonau" blaenorol a gafodd ei gyfuno â'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol o 2024-25.

## Effaith pwysau costau byw ar ddarparu gwasanaethau addysg

- Diweddariad ar oblygiadau pwysau costau byw a phrisiau ynni ar ddarparu sefydliadau addysg yn weithredol – ar draws y blynyddoedd cynnar, ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant.

## Monitro'r gyllideb a'r cyd-destun ariannol presennol

- Gwybodaeth am y prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg drwy gydol y flwyddyn, nodi diffygion a gwargedion posibl, a chymryd camau adferol neu ddyrannu arian ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffygion.

- Manylion am unrhyw newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2025-26 y'u disgwylir eisoes yn yr Ail Gyllideb Atodol.

## Meysydd penodol

### Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

- Esboniad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 a sut y mae wedi gwneud hynny (yn y Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol a'r Prif Grŵp Gwariant Addysg).
- Sut mae'r adolygiad o'r fformiwla ariannu ysgolion (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025) a'r Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 arfaethedig wedi cael eu hystyried yn null Llywodraeth Cymru o ddarparu cyllid a fwriadwyd ar gyfer ysgolion yn 2026-27.
- Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet ar lefel y cronfeydd wrth gefn yn y gyllideb ysgolion, yng nghyd-destun data 31 Mawrth 2025 sydd i'w cyhoeddi ddiwedd mis Hydref 2025.

### Cyllid ar gyfer gwella ysgolion a chodi safonau

- Esboniad o sut mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn cefnogi gwella ysgolion a chodi safonau addysg, a sut mae'n adlewyrchu newidiadau sy'n digwydd o dan y Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion.
- Manylion Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 2026-27, gan gynnwys dadansoddiad o'i bedair elfen.
- Manylion faint o Grant Addysg Awdurdodau Lleol a dalwyd i bob awdurdod lleol yn 2025-26, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl y bedair elfen.
- Asesiad wedi'i ddiweddaru a gynhaliwyd ar effaith cyfuno grantiau unigol â'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 2024-25 a sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei hun na fu unrhyw wanhau ar unrhyw weithgareddau ac ymyriadau a oedd gynt wedi'u neilltuo.
- Gwybodaeth am ddyraniadau cyllideb i gefnogi ymdrechion i wella safonau llythrennedd a rhifedd ac unrhyw asesiad sydd wedi'i wneud o'u heffeithiolrwydd a gwerth am arian.
- Cyllid ar gyfer rhaglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru a manylion nifer a gwerth y grantiau a ddyfarnwyd.
- Unrhyw gyllid arall i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

- Gwybodaeth ar sut mae adnoddau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cael eu defnyddio i leihau ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol - gan gynnwys o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb "Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad" neu o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

- Gwybodaeth am y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgolion a'r gwariant yn 2025-26, gan gynnwys nifer y disgyblion a gefnogir, ac a ragwelir yn 2026-27.

- Gwybodaeth am sut mae adnoddau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgwyr mewn addysg ôl-16 gydag effaith pwysau costau byw, ac i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau (gan gynnwys, er enghraifft, drwy gyllid cronfa caledi ar gyfer darparwyr, neu drwy gyllid cymorth i fyfyrwyr sy'n bodoli eisoes fel y Lwfans Cynhaliaeth Addysg).

- Unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb sy'n weddill ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd yn 2025-26 ac a oes angen unrhyw gyllideb ar gyfer hyn yn 2025-26,. A oes unrhyw ystyriaeth bellach wedi'i roi i ymestyn cymhwysedd mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig o ystyried y penderfyniad yn Lloegr i ymestyn prydau ysgol am ddim i bob disgybl mewn cartrefi sy'n derbyn credyd cynhwysol. Os na, sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio unrhyw swm canlyniadol Barnett sy'n deillio yn sgil y penderfyniad yn Lloegr.

- Dadansoddiad o unrhyw gyllid grant a ddarparwyd i awdurdodau lleol yn 2025-26 ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim yn gyffredinol mewn ysgolion cynradd.

- Unrhyw gyllid arall yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â chostau byw a'r gydberthynas negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad, er enghraifft rhaglen gwella gwyliau'r haf / haf o hwyl / prosiectau bwyd a hwyl, gan gynnwys esboniad wedi'i ddiweddaru o sut mae'r prosiectau hyn a'r ffrydiau ariannu yn perthyn i'w gilydd.

## Y Gweithlu Addysg

- Manylion y dyraniadau'r gyllideb i ariannu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), gan gynnwys cyllid a mentrau sydd wedi'u targedu at fynd i'r afael â phrinder mewn pynciau neu feysydd penodol, ac unrhyw asesiad sydd wedi'i wneud o'u heffeithiolrwydd a'u gwerth am arian.

- Manylion dyraniadau'r gyllideb i gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon presennol, gan gynnwys yn sgil y gwaith parhaus o weithredu diwygiadau addysg.

- Gwybodaeth am gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.
- Gwybodaeth am gyllid i sefydlu ac ariannu'r corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth cenedlaethol newydd. Sut mae hyn yn cymharu â'r cyllid ar gyfer yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol ac a yw cyllid ar gyfer y corff newydd yn disodli hyn yn uniongyrchol.
- Manylion am unrhyw ddarpariaeth cyllideb ar gyfer talu costau dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, gan gynnwys dadansoddiad rhwng y blynyddoedd ariannol 2025-26 a 2026-27 a'r mecanweithiau priodol a ddefnyddiwyd (p'un a ydynt yn grant uniongyrchol neu wedi'u hymgorffori yn y setliad llywodraeth leol).
- Gwybodaeth am unrhyw gyllid i gefnogi polisi ynghylch y gweithlu athrawon cyflenwi.

## Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

- Darpariaeth y gyllideb o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2026-27 o ran y dull/system ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol.
- Manylion unrhyw arian o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ategu gwaith mewn ysgolion yn y maes hwn.
- Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi iechyd meddyliol ac emosiynol pobl ifanc mewn addysg ôl-16.
- Darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y cynllun gweithredu a'r ymateb ehangach i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr.

## Ymddygiad a thrais

- Darpariaeth y gyllideb o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau sy'n deillio o ymddygiad a thrais mewn ysgolion a cholegau (gan gynnwys, er enghraifft, camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod bord gron ar drais a diogelwch a'r uwchgynhadledd genedlaethol ar ymddygiad – y ddau wedi'u cynnal ym mis Mai).

## Absenoldeb disgyblion

- Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol benodol i fynd i'r afael â chyfraddau absenoldeb disgyblion neu nodi pa linellau cyllideb sy'n cefnogi gwaith o'r fath yn fwy cyffredinol (gan gynnwys, er enghraifft, Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd ac Ysgolion Bro).

## Chwaraeon ac ymarfer corff

- Gwybodaeth am sut mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cefnogi'r ddarpariaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc, boed hynny yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol, a sut mae hyn yn ymwneud ag unrhyw fentrau neu gyllid yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol megis ar gyfer Pwysau Iach, Cymru Iach.
- Sut mae cyllid cyfalaf drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cefnogi chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc.

## Cefnogaeth ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

- Manylion cyllid i gefnogi addysg dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2026-27 a sut mae hyn yn cael ei ddosbarthu fel rhan o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

- Crynodeb wedi'i ddiweddaru o sefyllfa'r cyllid ar gyfer cefnogi dysgwyr gyda'u ADY, o'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a llinyn Diwygio Addysg y Grant Addysg i Awdurdodau Lleol.
- Goblygiadau'r adolygiad a gynhaliwyd a'r hyn y mae hyn wedi'i ddangos am y lefelau gofynnol o gyllid ADY.
- Asesiad wedi'i ddiweddaru o ran a yw'r diwygiadau ADY yn profi i fod yn niwtral o ran cost.
- Gwybodaeth am sut mae cyllid ar gyfer darpariaeth ADY yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad o'r fformiwla ariannu ysgolion a sut mae'n cael ei ystyried fel rhan o'r Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 arfaethedig.
- Y sefyllfa ddiweddaraf ar gyllid ar gyfer hyfforddi seicolegwyr addysg yng Nghymru ac unrhyw drefniant cyllid grant gyda sefydliadau addysg uwch, er enghraifft, Prifysgol Caerdydd.

## Estyn

- Manylion dyraniad cyllideb craidd Estyn ar gyfer 2026-27 a pha Brif Grŵp Gwariant/Llinell Wariant yn y Gyllideb y mae hwn wedi'i leoli ynddo.

- Canlyniad y gwaith a wnaed gydag Estyn i reoli effaith peidio â gallu darparu unrhyw gyllid ychwanegol yr adeg hon y llynedd (ac eithrio codiadau chwyddiant) i gefnogi'r cylch arolygu newydd (a grybwyllwyd ym mhapur y llynedd).

## Cymwysterau

- Manylion y cyllid a ddyrannwyd i Gymwysterau Cymru yn 2026-27 ac asesiad wedi'i ddiweddaru ynghylch a oes ganddo ddigon o gyllid i gyflawni ei gylch gwaith ac unrhyw waith diwygio a ddisgwylir ganddo.

## Y Gymraeg mewn Addysg

- Manylion dyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg i gefnogi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn addysg, a rôl y sector addysg o ran cyrraedd targed Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg.
- Sut mae dyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn berthnasol i gyllidebau eraill sy'n cefnogi'r Gymraeg, er enghraifft Cam Gweithredu y Gymraeg yn y Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
- Ble mae cyllid ar gyfer gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 wedi'i leoli yng nghyllideb Llywodraeth Cymru a faint sy'n cael ei ddyrannu.
- Gwybodaeth am gyllid a ddyrannwyd i wella'r gweithlu Cymraeg mewn addysg.

## Rhaglen Seren

- Manylion y ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi rhaglen Seren a'r Prosiect Ehangu Cyfranogiad.

## Addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant

- A yw'r cyllid yn y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i gefnogi alinio cyfraddau cyllido mewn addysg feithrin mewn lleoliadau nas cynhelir, a gofal plant o fewn y Cynnig Gofal Plant, yn parhau yn 2026-27. Naratif ar unrhyw effaith ar nodau i 'alinio' cyfraddau ar y penderfyniad o fis Ebrill 2025 i gynyddu'r gyfradd fesul awr ar gyfer darparwyr gofal plant o ddarparu'r Cynnig Gofal Plant o £5.00 i £6.40 yr awr o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu'r gyfradd hon yn flynyddol o hyn ymlaen.)
- Manylion unrhyw gyllid arall o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg i gefnogi darpariaeth addysg plentyndod cynnar / feithrin y sector nas cynhelir a'r Cwricwlwm i Gymru, a sut mae hyn yn

gysylltiedig â’r cyllid ar gyfer cyfrifoldebau’r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â’r blynyddoedd cynnar a gofal plant.

## Gwaith ieuenctid

- Manylion ynghylch sut mae’r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2026-27 yn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a’r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer bodloni ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu o ran cryfhau gwasanaethau ieuenctid.
- Sut mae'r Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2026-27 yn adlewyrchu canfyddiadau a gwaith yr Adolygiad o gyllido gwaith ieuenctid.
- Manylion ynghylch sut mae’r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2026-27 yn cefnogi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru, gwaith y Bwrdd Gweithredu a gwaith i sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru fel y nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig: Corff cenedlaethol a fframwaith statudol ar gyfer gwaith ieuenctid (27 Mehefin 2025).

## Dysgu ar gyfer Troseddwyr

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb yn 2026-27 ac unrhyw newidiadau i sut y caiff ei wario o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

## Cyllid ar gyfer Medr

- Cyfanswm y cyllid ar gyfer Medr yn 2026-27 a disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd Medr yn dyrannu hyn (pwyntiau mwy manwl wedi'u rhestru isod)

## Addysg bellach, chweched dosbarth ac addysg i oedolion yn y gymuned

- Faint o gyfanswm dyraniad Medr yn 2026-27 y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer dosbarthiadau chweched dosbarth a cholegau addysg bellach, ac unrhyw ddefnydd penodol o'r cyllid hwn.
- Manylion cyllid 2025-26 a ddyrannwyd i Medr ar gyfer dosbarthiadau chweched dosbarth unigol (neu awdurdodau lleol) a cholegau, a beth yw diben y cyllid hwn.
- Manylion unrhyw gyllid wedi'i neilltuo i sefydliadau addysg bellach neu chweched dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.
- Y dyraniad ar gyfer Dysgu Oedolion a’r Gymuned.
- Y rhestr lawn o werthoedd rhaglenni ar gyfer 2024-25 a 2025-26 a ddefnyddir wrth gyfrifo’r cyllid ar gyfer Addysg Bellach a’r Chweched Dosbarth.

- Manylion ar sut mae cynnydd mewn cymorth ariannol wedi effeithio ar y gyllideb ddrafft (yn benodol y cynnydd yng Ngrant Dysgu (AB) Llywodraeth Cymru a'r trothwyon uwch ar gyfer cymhwysedd ar gyfer LCA)

## Addysg uwch, a chymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr ôl-16

- Faint o gyfanswm dyraniad Medr yn 2026-27 y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer addysg uwch, ac unrhyw ddefnydd penodol o'r cyllid hwn.
- Manylion ynghylch sut mae'r gyllideb ddrafft yn cefnogi ac yn adlewyrchu sefyllfaoedd ariannol sefydliadau addysg uwch Cymru
- Manylion ar sut mae cynnydd mewn cymorth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser a llawn amser cymwys yng Nghymru, yn ogystal â chymorth ar gyfer astudiaethau meistr ôl-raddedig ac astudiaethau doethuriaeth ôl-raddedig, wedi dylanwadu ar y gyllideb ddrafft.
- Manylion ynghylch a yw penderfyniadau i godi'r uchafswm ffioedd dysgu ar gyfer astudiaethau israddedig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i Medr
- Manylion dyraniad Medr, gan gynnwys manylion unrhyw gyllid wedi'i neilltuo, neu gyllid a fwriedir ar gyfer gweithgareddau penodol gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr.
- Manylion unrhyw ddyraniad ar gyfer 2026-27 a fwriadwyd ar gyfer cyflwyno prentisiaethau gradd, ac a fwriedir ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu i ddysgu prentisiaid presennol.
- Manylion unrhyw gyllid cyfalaf sydd i fod ar gael ar gyfer Medr, gan gynnwys unrhyw amodau i'w gosod arno gan Lywodraeth Cymru.
- Manylion am unrhyw gronfeydd wrth gefn / cynlluniau wrth gefn / cronfeydd heb eu dyrannu o fewn unrhyw un o'r llinellau gwariant yn ymwneud ag addysg drydyddol 2026-27, gan gynnwys y llinellau gwariant o fewn y cam gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16; manylion sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio / sut gellir ei ddefnyddio; a manylion am unrhyw ddefnydd ohonynt yn ystod 2025-26.

## Darpariaeth addysg ôl-16 arall

- Gwybodaeth am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd Medr yn defnyddio cyfanswm ei ddyraniad i ariannu darpariaeth addysg ôl-16 arall.
- Manylion cyllid ar gyfer y Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol (Taith) gan gynnwys ei hestyniad i fis Mawrth 2028.

- Manylion am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, naill ai o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg neu'r Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg o'r Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

## Y Warant i Bobl Ifanc

- Manylion am ddarpariaeth y gyllideb o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg sy'n cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc a sut mae'n ymwneud â chyllid o Brif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yn hyn o dan Fand B.

- Amcanestyniad o pryd y mae'n debygol y bydd Band B wedi'i gwblhau a diweddariad ar gam nesaf y rhaglen sy'n cynnwys cynlluniau buddsoddi 9 mlynedd awdurdodau lleol.

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o oblygiadau costau byw, er enghraifft prisiau ynni ac adeiladu, ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan gynnwys unrhyw effaith ar gynnydd a chostau prosiectau.

- Y goblygiadau ariannol o bolisïau sero net carbon Llywodraeth Cymru a sut mae hyn yn effeithio ar y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2026-27.

- Darpariaeth yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg – ac eglurhad ynghylch a yw'n gyfalaf neu'n refeniw – ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion a cholegau, yn 2025-26 a 2026-27, a chadarnhad ynghylch a yw hyn yn rhan o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## Cyllid cyfalaf at ddibenion gofal plant

- Cadarnhad o statws y Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar a oedd i fod i ddod i ben yn wreiddiol yng Ngwanwyn 2025 ond a gafodd gyllid pellach yn 2025-26, ac a oes unrhyw ddyraniadau i ymestyn hyn i 2026-27.

- Gwybodaeth am gyllid cyfalaf o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer y rhaglen Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg ac unrhyw ddyraniadau at ddibenion yr ymrwymiad i gyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn 2 oed.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer y fenter Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

- Gwybodaeth am drefniadau ar gyfer cyllid sydd â'r nod o gynyddu natur ystadau addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac addasu safleoedd i gael eu defnyddio gan y gymuned.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

20 Awst 2025

Annwyl Rebecca,

**Cais am wybodaeth i lywio'r gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2026–27**

Ysgrifennaf atoch i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael. Yn amlwg, nid oes yn rhaid i chi gyfyngu eich ymateb i'r cais hwn, ac mae rhwydd hynt i chi ymdrin ag unrhyw faterion eraill y byddent, yn eich barn chi, o gymorth i'r Pwyllgor yn ei waith craffu ar y gyllideb.

Rydym wedi ysgrifennu ar wahân at y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i ofyn am wybodaeth yn ymwneud â Sgiliau a Chyflogadwyedd, Dysgu Seiliedig ar Waith a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol / Ymgysylltu â Chyflogwyr.

Byddai'n dda gennym petaech yn anfon y wybodaeth hon erbyn 3 Tachwedd 2025.

Diolch yn fawr am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Atodiad

Cais am wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i lywio gwaith craffu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gyllideb ddrafft 2026-27.

### Cyflwyno’r gyllideb

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i ganfyddiadau ar y Gyllideb Ddrafft yn unol â dull cydgysylltiedig cytunedig sy'n canolbwyntio ar bedair egwyddor craffu ariannol, sef:

- Fforddiadwyedd – i edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt;
- blaenoriaethu – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- gwerth am arian – yn y bôn, p’un a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau’n dda o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, h.y. canlyniadau; a hefyd
- prosesau’r gyllideb – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth, a rheolaeth perfformiad a rheolaeth ariannol.

Darparwch y canlynol ar gyfer cyllideb ddrafft yr Economi yn ei chyfanrwydd:

- Dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft 2026-27, ac unrhyw gyllidebau dangosol yn y dyfodol, fesul Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, o ran refeniw a chyfalaf, ynghyd â dyraniadau Cyllideb 2024-25 fel cymhariaeth;
- manylion y sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau cyllidebol;
- disgrifiad naratif o'r prif bolisïau a rhaglenni a ariennir gan bob Llinell Wariant yn y Gyllideb;
- manylion y prosesau sydd ar waith i fonitro cyllidebau drwy gydol y flwyddyn, i ganfod gwargedion a diffygion posibl, a chymryd camau i unioni’r gyllideb neu i ddyrannu arian ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffygion;
- manylion unrhyw adroddiadau/adolygiadau sy’n gwerthuso polisïau neu raglenni, sydd wedi arwain at newidiadau i'r gyllideb ddrafft er mwyn sicrhau gwerth am arian;
- sut mae dyraniadau cyllideb ddrafft yn ymwneud â blaenoriaeth y Prif Weinidog o ran mwy o swyddi, a phob un o'r pedwar blaenoriaeth yn Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach;


Senedd Cymru
Welsh Parliament

- goblygiadau costau byw uwch a gwneud busnes ar ddyraniadau cyllideb a rhaglenni;
- unrhyw oblygiadau i'r gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â threfniadau pontio'r UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE;
- sut mae'r Gweinidog yn rheoli unrhyw effaith negyddol ar gyllidebau o fewn y portffolio sy'n deillio o derfynu'r Cronfeydd Strwythurol a/neu yn ceisio manteisio ar unrhyw gyfleoedd a allai godi;
- sut y mae'r Gyllideb Ddrafft yn darparu ar gyfer gweithredu deddfwriaeth a gaiff ei phasio yn y Senedd, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol y DU;
- pa ystyriaeth sydd wedi cael ei rhoi i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth benderfynu ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft;
- manylion am sut y mae'r Gyllideb Ddrafft wedi cael ei dylanwadu gan asesiadau effaith o ran cydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg;
- sut y mae'r Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau effaith amddifadedd a thlodi; a hefyd
- sut mae Llywodraeth Cymru wedi cynllunio ar gyfer newidiadau demograffig wrth baratoi ei Chyllideb Ddrafft, yn enwedig yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.

**Gwariant Ataliol:**

Byddwn yn ystyried gwariant ataliol fel rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Y diffiniad o wariant ataliol a fabwysiedir at y diben hwn yw:

> ...*gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar, a thrwy hynny sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian*.

Gan gofio'r diffiniad hwnnw, hoffem gael gwybodaeth am:

- Y gyfran o gyllideb yr Economi a ddyrennir i fesurau gwariant ataliol;
- manylion y polisïau neu raglenni penodol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn y bwriedir iddynt fod yn ataliol, a sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu trawsnewid yn ymarferol, i sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol; a hefyd
- sut y caiff gwerth am arian rhaglenni o'r fath ei werthuso, gan ganolbwyntio'n arbennig ar beth yw'r mewnbynnau penodol a'r canlyniadau a fwriedir.

**Llinellau gwariant yn y gyllideb unigol**

Yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am y Llinellau Gwariant Cyllideb unigol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, hoffem gael y wybodaeth a ganlyn am y polisïau a'r materion a amlinellir isod:

- Manylion y costau a/neu unrhyw waith a wnaed i asesu'r costau sydd ynghlwm wrth roi'r polisïau hyn ar waith yn ystod 2026-27;
- sut y caiff y dulliau o weithredu'r polisi, a'r canlyniadau cysylltiedig, eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian; a hefyd
- sut y mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth i'r Gymraeg wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

**Yr economi:**

- Dyraniadau i gefnogi busnesau, gan gynnwys manylion sut mae'r rhain yn cynorthwyo busnesau bach a chanolig a busnesau mwy o faint;
- unrhyw ddyraniadau i gefnogi seilwaith eiddo a datblygu safleoedd cyflogaeth;
- manylion dyraniadau i gefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol, gan gynnwys y Gronfa Twf Lleol, Cymoedd Technoleg, Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi;
- unrhyw ddyraniadau i gefnogi'r unigolion a'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan benderfyniad Tata i atal cynhyrchu prif ddur ym Mhort Talbot, i ategu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU;
- dyraniadau ariannol i gefnogi'r economi sylfaenol;
- Banc Datblygu Cymru – gan gynnwys dyraniadau i'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, Cynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru, a chymorth i fusnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr;
- dyraniadau ariannol i Busnes Cymru;
- cymorth i sectorau gweithgynhyrchu allweddol fel y sector awyrofod, y sector moduron a'r sector dur;
- y dyraniadau i gyflawni Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025, gan gynnwys 'Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru' a'r 'Gronfa Pethau Pwysig';
- unrhyw ddyraniadau mewn perthynas â chynigion deddfwriaethol y rheoliadau llety ymwelwyr;
- dyraniadau i bob un o'r pedwar bargen dinesig a'r fargen twf;

- cymorth i gyflawni 'Cydweithio er budd manwerthu: cynllun gweithredu fforwm manwerthu Cymru'; a hefyd
- dyraniadau i gefnogi busnesau a gweithwyr wrth drosglwyddo i weithredu'n Sero Net, fel dyraniadau i gefnogi'r dasg o greu swyddi gwyrdd cynaliadwy, a dyraniadau a fydd yn sicrhau y bydd gan weithwyr y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi hynny.

**Ymchwil, datblygu ac arloesi**

- Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2026-27 y bwriedir iddo ddarparu adnoddau ar gyfer pum blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru; gan gynnwys unrhyw gyllid sydd â'r nod o sicrhau bod gan Gymru gyfran deg o'r cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi sydd ar gael gan gynnwys unrhyw gyllid i ddisodli cyllid yr UE;
- Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2026-27 y bwriedir iddo ddarparu adnoddau ar gyfer Strategaeth Arloesi Cymru; a hefyd
- manylion yr arian ar gyfer ymchwil ac arloesi ar draws Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

**Masnach**

- Manylion gweithredu trefniadau a rhwymedigaethau newydd o dan Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE;
- manylion gweithredu cytundebau masnach ôl-Brexit y DU, gan gynnwys deddfwriaeth berthnasol;
- Y dyraniadau ariannol i gyflawni 'Cynllun Gweithredu Allforio Cymru' Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, i gynnwys goblygiadau sy'n deillio o gyhoeddi'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol ym mis Ebrill 2025; a hefyd
- manylion dyraniadau i ddenu buddsoddiad mewnol i Gymru.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

20 Awst 2025

Annwyl Huw,

**Cais am wybodaeth i lywio'r gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2026–27**

Ysgrifennaf atoch i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael. Yn amlwg, nid oes yn rhaid i chi gyfyngu eich ymateb i'r cais hwn, ac mae rhwydd hynt i chi ymdrin ag unrhyw faterion eraill y byddent, yn eich barn chi, o gymorth i'r Pwyllgor yn ei waith craffu ar y gyllideb.

Byddai'n dda gennym petaech yn anfon y wybodaeth hon erbyn 3 Tachwedd 2025.

Diolch yn fawr am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

## Atodiad

Cais am wybodaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i lywio gwaith craffu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Gyllideb Ddrafft 2025-26.

### Cyflwyno'r gyllideb

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i ganfyddiadau ar y Gyllideb Ddrafft yn unol â dull cydgysylltiedig cytunedig sy'n canolbwyntio ar bedair egwyddor craffu ariannol, sef:

- Fforddiadwyedd – i edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt;
- blaenoriaethu – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- gwerth am arian – yn y bôn, p'un a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau'n dda - darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y. canlyniadau); a hefyd
- prosesau'r gyllideb – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth, a rheolaeth perfformiad a rheolaeth ariannol.

Darparwch y canlynol ar gyfer cyllideb ddrafft Materion Gwledig yn ei chyfanrwydd:

- Dadansoddiad o gyllideb ddrafft 2026-27 fesul Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, o ran refeniw a chyfalaf, ynghyd â dyraniadau Cyllideb 2025-26 fel cymhariaeth;
- manylion y sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau cyllidebol;
- disgrifiad naratif o'r prif bolisïau a rhaglenni a ariennir gan bob Llinell Wariant yn y Gyllideb;
- manylion y prosesau sydd ar waith i fonitro cyllidebau drwy gydol y flwyddyn, i ganfod gwargedion a diffygion posibl, a chymryd camau i unioni'r gyllideb neu i ddyrannu arian ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffygion;
- manylion unrhyw adroddiadau/adolygiadau sy'n gwerthuso polisïau neu raglenni, sydd wedi arwain at newidiadau i'r gyllideb ddrafft er mwyn sicrhau gwerth am arian;
- goblygiadau costau byw uwch ar ddyraniadau cyllideb a rhaglenni;

- unrhyw oblygiadau i'r gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â threfniadau pontio'r UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE;
- sut y mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer gweithredu deddfwriaeth a gaiff ei phasio yn y Senedd, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol y DU;
- pa ystyriaeth sydd wedi cael ei rhoi i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth benderfynu ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft;
- manylion am sut y mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei dylanwadu gan unrhyw asesiadau effaith o ran cydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg;
- sut y mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau effaith amddifadedd a thlodi; a hefyd
- sut mae Llywodraeth Cymru  wedi cynllunio ar gyfer newidiadau demograffig wrth baratoi ei chyllideb ddrafft, yn enwedig yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.

**Gwariant Ataliol:**

Byddwn yn ystyried gwariant ataliol fel rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Y diffiniad o wariant ataliol a fabwysiedir at y diben hwn yw:

> *...gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar, a thrwy hynny sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian*.

Gan gofio'r diffiniad hwnnw, hoffem gael gwybodaeth am:

- Y gyfran o gyllideb Materion Gwledig a ddyrennir i fesurau gwariant ataliol;
- manylion y polisïau neu raglenni penodol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn y bwriedir iddynt fod yn ataliol, a sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu trawsnewid yn ymarferol, i sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol; a hefyd
- sut y caiff gwerth am arian rhaglenni o'r fath ei werthuso, gan ganolbwyntio'n arbennig ar beth yw'r mewnbynnau penodol a'r canlyniadau a fwriedir.

**Llinellau gwariant yn y gyllideb unigol**

Yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am y Llinellau Gwariant Cyllideb unigol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, hoffem gael y wybodaeth a ganlyn am y polisïau a'r materion a amlinellir isod:

- Manylion y costau a/neu unrhyw waith a wnaed i asesu'r costau sydd ynghlwm wrth roi'r polisïau hyn ar waith yn ystod 2026-27;

- gwybodaeth yn ymwneud â sut y caiff y dulliau o weithredu'r polisi, a'r canlyniadau cysylltiedig, eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian; a hefyd
- sut y mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth i'r Gymraeg wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

**Materion Gwledig**

Rhaglen Lywodraethu 2021-2026:

Eglurhad o sut mae dyraniadau'r gyllideb yn eich portffolio yn cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu. Sut mae dyraniadau'r gyllideb Materion Gwledig yn mynd i'r afael ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ar draws pob maes polisi.

**Gwariant Ataliol:**

- Manylion am gyfran cyllideb y portffolio a ddyrannwyd ar gyfer camau gwariant ataliol a sut y mae'r gyfran wedi cynyddu o'i chymharu â chyllideb y llynedd.
- Manylion am ba bolisïau neu raglenni penodol yn y portffolio y bwriedir iddynt fod yn ataliol.

**Llunio polisïau yn seiliedig ar dystiolaeth**

- Eglurhad o sut rydych wedi defnyddio tystiolaeth wrth flaenoriaethu dyraniadau eich cyllideb ddrafft a sut y byddwch yn monitro ac yn arfarnu rhaglenni i sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian ac yn llywio prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.
- Manylion am sut y mae'r gwaith o ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft wedi'i lywio a sut y dylanwadwyd arno o ganlyniad i ymgynghori â rhanddeiliaid.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

- Enghreifftiau o sut mae'r Ddeddf wedi llywio penderfyniadau ar ddyraniadau penodol yn y gyllideb.
- Manylion am sut mae'r broses asesu effaith wedi dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys enghreifftiau o ble mae penderfyniad wedi cael ei asesu yn erbyn amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

**Cydraddoldeb, y Gymraeg ac asesu hawliau plant**

- Manylion am sut rydych wedi ystyried effaith y Gyllideb Ddrafft ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig ac ar y Gymraeg, gan gynnwys manylion am unrhyw asesiadau effaith perthnasol.
- Manylion am sut y mae hawliau plant wedi cael eu hystyried yn y penderfyniadau cyllideb ar gyfer y portffolio.

**Meysydd polisi penodol**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am ddyraniadau'r gyllideb yn y meysydd polisi a ganlyn, a'r dibenion y maent wedi'u dyrannu ar eu cyfer:

- Datblygu a gweithredu polisi amaethyddol gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig i Gymru, gan gynnwys:
    - Y newid o gynlluniau newydd interim, megis Cynllun Cynefin Cymru, y Taliad Cymorth Organig a'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
    - parhad y Cynllun Taliad Sylfaenol i'r rheini nad ydynt yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy; a hefyd
    - y broses o ffermwyr yn trosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd megis allgymorth e.e. cefnogaeth i Cyswllt Ffermio a threfniadau gweinyddol;
    - datblygu polisi pysgodfeydd, gan gynnwys cyflawni Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd, a chymorth ariannol parhaus i'r sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu yn dilyn diwedd Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (neu'r *EMFF*);
    - y Rhaglen Dileu TB Buchol (gan gynnwys y cynllun cyflawni, profi ac iawndal);
    - rheoli clefydau eraill anifeiliaid, megis ffliw adar a'r tafod glas;
    - polisïau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Lles Anifeiliaid newydd ar gyfer Cymru 2021-26 gan gynnwys canlyniadau'r gwaith ynghylch trwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd lles anifeiliaid;
    - polisi adnabod a symud da byw; a hefyd
    - datblygu a gweithredu strategaeth bwyd a diod, gan gynnwys y Strategaeth Bwyd Cymunedol.

Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf, hefyd, am y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer cymorth i amaethyddiaeth.

**Deddfwriaeth**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth am y dyraniadau cyllidebol ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol ac arfaethedig; gweithredu is-ddeddfwriaeth arfaethedig a phresennol; ac ar gyfer gweithredu unrhyw ddeddfwriaeth newydd berthnasol yn y DU. Dylai hyn gynnwys gweithredu, gorfodi ac adolygu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021.

**Polisi goruchwylio ffiniau**

- Manylion cyllid sy'n gysylltiedig â goruchwylio polisi ffiniau, gan gynnwys y ffordd y mae'n ymwneud â safleoedd rheoli ffiniau a chytundeb glanweithdra a ffytoiechydol (neu *SPS*) posibl rhwng y DU a'r UE.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

20 Awst 2025

Annwyl Jack,

**Cais am wybodaeth i lywio’r gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2026–27**

Ysgrifennaf atoch i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael. Yn amlwg, nid oes yn rhaid i chi gyfyngu eich ymateb i’r cais hwn, ac mae rhwydd hynt i chi ymdrin ag unrhyw faterion eraill y byddent, yn eich barn chi, o gymorth i’r Pwyllgor yn ei waith craffu ar y gyllideb.

O ystyried y gorgyffwrdd rhwng eich portffolio chi a phortffolio’r Gweinidog Addysg Bellach ac Addysg Uwch o ran cyllid ar gyfer sgiliau, prentisiaethau, ac ymchwil a datblygu, rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth a ddarperir i’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrth graffu ar y gyllideb, yn ogystal â’r dystiolaeth rydych yn ei darparu i’r Pwyllgor, cyn cyflwyno ein hadroddiad i'r Senedd.

Byddai’n dda gennym petaech yn anfon y wybodaeth hon erbyn 3 Tachwedd 2025.

Diolch yn fawr am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Yn gywir,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Copi at: Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Atodiad

Cais am wybodaeth gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i lywio gwaith craffu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gyllideb ddrafft 2026-27.

**Cyflwyno'r gyllideb**

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i ganfyddiadau ar y Gyllideb Ddrafft yn unol â dull cydgysylltiedig cytunedig sy'n canolbwyntio ar bedair egwyddor craffu ariannol, sef:

- Fforddiadwyedd – i edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt;
- blaenoriaethu – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- gwerth am arian - yn y bôn, p'un a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau'n dda o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, h.y. canlyniadau; a hefyd
- prosesau'r gyllideb – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth, a rheolaeth perfformiad a rheolaeth ariannol.

Mae llythyr ar wahân wedi'i anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i ofyn am fanylion am Brif Grŵp Gwariant y Gyllideb Ddrafft ar gyfer yr Economi a gwariant ataliol.

Yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am y Llinellau Gwariant Cyllideb unigol o fewn eich cylch gorchwyl sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, hoffem gael y wybodaeth a ganlyn am y polisïau a'r materion a nodir isod:

**Sgiliau a Chyflogadwyedd:**

- Cyfanswm y cwantwm cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyflawni'r Warant Pobl Ifanc yn 2026-27.
- Lefel y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i ddarparu Cyfrifon Dysgu Personol yn 2026-27.
- Manylion unrhyw gyllid penodol ar gyfer sgiliau a chyflogadwyedd a gynigir i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan benderfyniad Tata i atal cynhyrchu dur cynradd ym Mhort Talbot.
- Manylion unrhyw gyllid penodol ar gyfer sectorau sy'n trosglwyddo i sero net ar gyfer uwchsgilio ac ailsgilio gweithwyr, gan gynnwys:

    - Manylion cyllid ar gyfer y Rhaglen Sgiliau Hyblyg ac a wneir dyraniadau penodol i raglenni unigol.

- Rhestr gyfunol o'r holl raglenni cyflogadwyedd a ariennir gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb Sgiliau, gan gynnwys:
    - Cleientiaid / buddiolwyr arfaethedig pob rhaglen;
    - a ydyn nhw'n rhan o gynllun 'ymbarél' mwy (h.y. y Warant Pobl Ifanc); a hefyd
    - rhestr yn manylu ar y prif ddarparwyr ar gyfer pob un o'r rhaglenni, gan gynnwys eu gwerthoedd contract ar gyfer 2026-27.
- Manylion dyraniadau i gefnogi pobl economaidd anweithredol ac anabl i mewn i fyd gwaith.
- Manylion y cyllid a ddyrannwyd i gystadleuaeth WorldSkills UK, gan gynnwys rhagolygon o'r arian sy'n weddill i'w wario yn 2025.
- Cyllid gwirioneddol 2024-25 a’r cyllid a ragwelir ar gyfer 2025-26 i Gronfa Sgiliau Cymru Greadigol a sut y bwriedir defnyddio hwn.

**Dysgu seiliedig ar waith**

- Yr alldro gwirioneddol ar gyfer 2024-25 a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2025-26 i’r raglen brentisiaeth, a sut mae hyn yn gysylltiedig â chyflawni targed Llywodraeth Cymru.
- Manylion unrhyw drosglwyddiadau o’r Weithred Dysgu Seiliedig ar Waith 2026-27 i ariannu Prentisiaethau Gradd.
- Manylion unrhyw gyllid a ddefnyddiwyd yn 2025-26 a rhagolwg o’r cyllid sydd i'w ddefnyddio yn 2026-27 i:
    - Ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd; ac/neu
    - adolygu'r fframweithiau prentisiaeth presennol.
- Manylion yr holl gyfyngiadau rheoli galw a chamau gweithredu i reoli galw am brentisiaethau sydd ar waith, neu a gaiff eu cyflwyno ar gyfer y rhaglen brentisiaeth yn ystod 2026-27.
- Manylion unrhyw newidiadau i gyllid prentisiaethau mewn ymateb i adroddiad prentisiaethau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

- Manylion unrhyw ddibenion penodol y cyllid a ddarparwyd i Medr yn eu rôl o ddyrannu cyllid ar gyfer prentisiaethau.

**Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol / Ymgysylltu â Chyflogwyr:**

- Manylion yr arian sydd i'w ddarparu i bob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac at ba bwrpas.
- Manylion dyraniadau Llywodraeth Cymru i Gyrfaoedd Cymru a sut mae hyn wedi'i anelu at gyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer sgiliau.

**Partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg:**

- Manylion y dyraniadau sy'n ymwneud â gweithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), ac a ydynt wedi newid o'r rhai a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd i lywio'r gwaith o graffu ar y Bil.
- Manylion sut y bydd dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft yn cefnogi mentrau gwaith teg ac yn helpu gyda mwy o daliadau'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Manylion unrhyw ddyraniadau a wnaed i gefnogi gweithrediad y strategaeth Gweithio o Bell.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

29 Gorffennaf 2025

Annwyl Andrew,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf at Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ynglŷn â Deiseb P-06-1488 i "sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i fynd i'r afael â'r argyfwng Covid Hir yng Nghymru". Anfonwyd eich gohebiaeth ymlaen ataf gan fod y materion hyn yn rhan o gyfrifoldebau fy mhortffolio i.

Nodaf fod y ddeiseb yn galw am:

- addasiadau yn y gweithle megis oriau hyblyg, gweithio o bell, ac amddiffyniadau rhag gwahaniaethu; a
- chynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol, sy'n ystyried sut y gallai cymorth ariannol rymuso pobl i gyfrannu at gymdeithas, waeth beth fo'u statws iechyd.

O ran addasiadau yn y gweithle, y cyflogwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei weithwyr yn cael cymorth yn ystod cyfnodau o salwch ac i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl unrhyw gyfnod o salwch, gan gynnwys COVID Hir. Pan fo angen, dylai cyflogwyr wneud addasiadau rhesymol i hwyluso hyn. Rydym yn disgwyl i sefydliadau fod yn cyflawni eu gofynion fel cyflogwyr i ddarparu addasiadau rhesymol i staff anabl, fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Nid mater i Lywodraeth Cymru yw rheoleiddio cyrff cyhoeddus. Gall y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Cydraddoldeb (equalityadvisoryservice.com) fod yn ffynhonnell o wybodaeth ddefnyddiol.

Gan gydnabod y materion penodol yr oedd staff y GIG yn eu hwynebu ym mis Gorffennaf 2023, datblygodd Cyflogwyr GIG Cymru ddogfen ganllaw i helpu cydweithwyr â COVID-19 Hir i ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r canllawiau hynny'n atgoffa cyflogwyr o'r angen i ystyried a yw'n briodol darparu cymorth tâl salwch uwch na hanner cyflog neu ddim tâl, a hynny fesul achos yn dilyn trafodaethau rhwng y rheolwr a'r aelod o staff. Roedd y canllawiau hefyd yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gofyn i reolwyr llinell ystyried pob opsiwn sy'n agored iddynt, gan edrych ar unrhyw bosibiliadau o ran hyblygrwydd a gwneud eu gorau glas i helpu unigolion sydd â COVID Hir i ddychwelyd i'r gweithle pan fo'n bosibl.

O ran Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol, bydd angen i unrhyw ystyriaeth yn y dyfodol o ran defnyddio incwm sylfaenol yng Nghymru gael ei lywio gan yr hyn a ddysgir o'r cynllun peilot ar gyfer Incwm Sylfaenol i'r Rheini sy'n Gadael Gofal yng Nghymru. Bydd y cynllun peilot yn dod i ben yn nes ymlaen eleni, a bydd yn destun gwerthusiad manwl a gaiff ei gynnal tan ddechrau 2027. Ni fwriedir i'r cynllun peilot ymateb i effeithiolrwydd pob defnydd posibl ar gyfer incwm sylfaenol.

Mae Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn cynnwys y flaenoriaeth o helpu pobl sydd â chyflwr iechyd hirdymor i weithio. Mae ein rhaglen Cymunedau am Waith+, sy'n darparu cymorth cynghori arbenigol ym maes cyflogaeth, ynghyd â mentora dwys, hefyd wedi gwneud cynnydd cadarn o ran helpu cyfranogwyr sy'n nodi eu bod yn anabl neu sydd â chyflyrau iechyd hirdymor. Mae hyn yn cynrychioli mwy na 20% o'r rhai a gaiff eu helpu.

At hynny, mae Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith Llywodraeth Cymru yn cynnig mynediad cyflym at wasanaethau therapi galwedigaethol, ffisiotherapi a therapi seicolegol priodol. Mae'r gwasanaethau wedi'u cynllunio i helpu pobl gyflogedig neu hunangyflogedig i ddychwelyd i'r gwaith neu i reoli cyflwr iechyd yn y gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl sydd â chyflyrau iechyd, gan gynnwys COVID Hir, i chwarae eu rôl yn economi Cymru, aros mewn gwaith, a chael mynediad at waith drwy nifer o fentrau. Byddwn yn parhau i helpu pobl i arfer eu hawliau, i gael yr incwm gorau posibl, ac i gael gafael ar gyflogaeth gynaliadwy.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: HID-PO-377-2025

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

31 Gorffennaf 2025

Annwyl Andrew,

Yn y sesiwn Graffu Gyffredinol a fynychais ar 17 Gorffennaf, addewais y byddwn yn mynd ar drywydd rhagor o wybodaeth o ran brechiadau BTV-3 a symudiadau anifeiliaid.

Gallaf gadarnhau bod y niferoedd brechu ar gyfer anifeiliaid sydd wedi'u brechu ac nid ar gyfer dosau unigol. Mae'r dadansoddiad yn ôl anifeiliaid fel yr amlinellir isod ar 23 Gorffennaf 2025:

- Mae milfeddygon wedi adrodd bod 154,260 o anifeiliaid wedi'u brechu (103,970 o wartheg, 48,904 o ddefaid, 200 o gamelidau, 1,186 o eifr).

- Mae ceidwaid anifeiliaid wedi adrodd bod 79,694 o anifeiliaid wedi'u brechu (48,403 o wartheg, 30,898 o ddefaid, 192 o gamelidau, 201 o eifr).

O ran symudiadau anifeiliaid, mae fy swyddogion yn casglu'r niferoedd a byddaf yn ysgrifennu atoch chi ar hyn maes o law.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Jack Sargeant AS
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

1 Awst 2025

Annwyl Huw, Rebecca a Jack,

**Gwaith Dilynol ar ôl Cyfarfod y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2025**

Diolch i chi gyd am ddod i'n sesiynau craffu cyffredinol gyda'r Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2025. Yn ystod y sesiynau, codwyd nifer o bwyntiau dilynol y gwnaethoch ddweud y byddech yn eu hateb yn ysgrifenedig. Yn y sesiwn materion gwledig, roedd yna hefyd nifer o gwestiynau na lwyddodd y Pwyllgor i'w cyrraedd o fewn yr amserlen, ond y byddai'n gwerthfawrogi cael ymateb iddynt. Er mwyn eglurder, maent wedi'u nodi isod:

**Materion Gwledig**

*Tafod Glas*

- Faint yn llai o unedau da byw sydd wedi symud i Gymru ers i gyfyngiadau ar y Tafod Glas ddod i rym?

*Pysgodfeydd*

- Sut y bydd yr estyniad i'r trefniadau pysgota rhwng y DU a'r UE sydd newydd eu cytuno tan 2038 yn effeithio ar eich datblygiad a'ch gweithrediad o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd?
    - Sut ydych chi'n ymgysylltu â'r diwydiant pysgota cyn i'r estyniad ddod i rym?
    - Sut ydych chi'n ymgysylltu â'r diwydiant pysgota pysgod cregyn tra rydych yn disgwyl i gytundeb glanweithdra a ffytoiechydol arfaethedig y DU a'r UE gael ei gyflwyno?

*Rheoliadau llygredd amaethyddol*

- Pam mae rhai o'r argymhellion a wnaed gan adolygiad Dr Susannah Bolton o'r rheoliadau llygredd amaethyddol wedi'u nodi fel rhai sy'n cymryd dros dair blynedd i'w gweithredu?
- A fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhaglen o waith sy'n nodi sut a phryd y bydd yr holl argymhellion yn cael eu gweithredu? Os felly, pryd?

**Masnach Ryngwladol**

Fel y trafodwyd yn y sesiwn, gwnaethoch ymrwymo i ysgrifennu atom ynglŷn â chadarnhad nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw fuddsoddiad cyhoeddus mewn unrhyw gwmni sy'n buddsoddi mewn arfau i Israel.

**Yr Economi a Sgiliau**

Yn ystod y sesiwn olaf, roedd ymrwymiad i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

*Sgiliau*

- pan fydd ar gael, amserlen o ran pryd y gallwn ddisgwyl cyhoeddiad ar brentisiaethau adeiladu ac ailgyflwyno cymhwyster lefel 2
- Gohebiaeth gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch gydag ymateb llawnach ar gyflwyno prentisiaethau iau
- Ffigurau penodol ar y nifer sy'n dilyn gradd-brentisiaeth rheilffyrdd.

*Yr economi*

- Y manylion penodol ar ddatblygu eiddo ym Mrocastell

- Unrhyw wybodaeth sydd ar gael ar ddata'r dangosfwrdd a rennir gyda'r Bwrdd Pontio ynghylch canlyniadau a'r camau nesaf i'r rhai yr effeithir arnynt gan ddiswyddiadau Tata ym Mhort Talbot.

Edrychaf ymlaen at eich ymatebion i'r cwestiynau a'r ymholiadau hyn, a byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o'u derbyn erbyn 18 Medi.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Rebecca Evans AS/MS**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref - AH-064-001

Andrew RT Davies, AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

4 Awst 2025

Annwyl Andrew,

Yn atodol mae'r argymhellion o Adolygiad Asesu Prosiect diweddar Banc Datblygu Cymru (DBW).

Mae'r chwe argymhelliad wedi cael eu derbyn yn llawn gan yr Uwch Swyddog Cyfrifol a bydd tîm Partneriaeth Banc Datblygu Cymru yn bwrw ymlaen â'r rhain gan weithio gyda'r arweinwyr mwyaf priodol yn Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru o fewn y dyddiadau cau penodedig.

Rwy'n falch o nodi bod y Tîm Adolygu wedi canfod bod y trefniadau rhwng Tîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru yn effeithiol, a bod y banc mewn lle da er mwyn cyflawni ei amcanion a'i dargedau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol.

Canfu'r Tîm hefyd fod diwydrwydd dyladwy cynhwysfawr a chadarn yn cael ei wneud o safbwynt cwsmeriaid y banc, sy'n lliniaru risg ariannol ac enw da, a bod y banc yn dilyn prosesau cadarn i ddilyn cwynion, y mae ond ychydig ohonynt. Oherwydd y canfyddiadau ynghylch arfer da ar gyfer trin cwynion a diwydrwydd dyladwy, nid oedd unrhyw argymhellion penodol ar gyfer camau pellach yn ymwneud â'r un o'r meysydd hyn.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Crynodeb o Argymhellion yr Adroddiad:**

Mae'r Tîm Adolygu yn gwneud yr argymhellion canlynol wedi'u blaenoriaethu gan ddefnyddio'r diffiniadau isod.

| Cyf | Argymhelliad | Risg* a Mater wedi'i Nodi gyda Thystiolaeth | Categori | Critigol, Hanfodol, Argymhellir | Erbyn Pryd |
|---|---|---|---|---|---|
| **R1** | Llywodraeth Cymru i gwblhau trafodaethau gyda HMT i ddatrys materion sydd heb eu datrys sy'n ymwneud ag ail gategoreiddio Banc Datblygu Cymru. | Mae cwblhau'r trafodaethau hyn rhwng Llywodraeth Cymru a HMT yn rhagamod angenrheidiol ar gyfer sefydlu fframwaith cyllidebol sefydlog rhwng Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru; mae'n bosibl na fydd y Banc yn gallu defnyddio'n llawn y cyfalaf sydd ar gael i ateb y galw heb wneud hyn. | **5. Rheolaeth Ariannol** | **Tyngedfennol** | **EI WNEUD NAWR** |
| **R2** | Parhau i weithio'n agos gyda Banc Datblygu Cymru i sicrhau bod unrhyw sicrwydd cyllideb ychwanegol sy'n ofynnol yn cael ei sefydlu mewn modd amserol. | Os yw'r galw am wasanaethau'r Banc yn fwy na'i sicrwydd cyllideb, bydd angen cymryd camau ychwanegol i sicrhau hyn gan Lywodraeth Cymru neu fel arall i alluogi'r banc i reoli'r galw. Mae egluro'r prosesau a'r amseru ar gyfer trefniadau o'r fath o fewn paramedrau cyllidebu blynyddol yn angenrheidiol i liniaru risgiau cyflawni. Gallai camau gweithredu gan y banc i gyfyngu ar fuddsoddiad arwain at niwed i enw da os na chaiff eu trin yn ofalus. | **5. Rheolaeth Ariannol** | **Hanfodol** | **PARHAUS** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **R3** | Dogfennu prosesau, cysylltiadau a rolau allweddol y Tîm Partneriaethau o fewn Banc Datblygu Cymru i sicrhau parhad busnes yn achos newidiadau neu absenoldeb staff. | Gallai colli gwybodaeth gorfforaethol arwain at drefniadau goruchwylio llai effeithiol gan y Tîm Partneriaeth. | **4. Rheoli Newid a Throsglwyddo** | **Hanfodol** | **Erbyn Tachwedd 2025** |
| **R4** | Gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i ddatblygu strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i:<br>• hyrwyddo dealltwriaeth gliriach o rôl y banc gan aelodau'r Senedd, y llywodraeth, cwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid a'r cyhoedd<br>• sicrhau bod sbectrwm ehangach o safbwyntiau yn cael ei ystyried yng ngwaith cynllunio a chyfathrebu Banc Datblygu Cymru, gan gynnwys darpar gwsmeriaid, grwpiau buddiant perthnasol (e.e. BVCA), adrannau. | Mae'n bosibl nad yw rôl Banc Datblygu Cymru yn cael ei deall yn llawn, a gallai'r gwaith o'i gynllunio gael ei ddatblygu gyda safbwynt gulach na'r safbwynt gorau posibl, a gallai hynny gyfyngu ar ei effaith. | **2. Rheoli Rhanddeiliaid** | **Hanfodol** | **Erbyn mis Mawrth 2026** |
| **R5** | Parhau â'r gwaith o ddiweddaru'r Ddogfen Fframwaith hyd yn oed os nad yw'r mater categoreiddio wedi'i ddatrys yn llawn eto. | Mae'r Ddogfen Fframwaith wedi dyddio, a allai arwain at gamddealltwriaeth am rôl Banc Datblygu Cymru neu achosi'r ddogfen i fod yn amherthnasol a chael ei hanwybyddu. | **7. Strategaeth a Rheolaeth Fasnachol** | **Hanfodol** | **Erbyn Rhagfyr 2025** |
| **R6** | Ystyriwch a yw'r cynnwys a'r lefel o fanylion yn y Ddogfen Fframwaith yn briodol o ystyried y berthynas hyd braich rhwng Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru. | Gellid peryglu natur hyd braich Banc Datblygu Cymru os yw'r Ddogfen Fframwaith yn rhy ragnodol neu os yw peth o'r cynnwys o dan arweiniad polisi yn hytrach nag o dan arweiniad fframwaith/sylfaen. | **7. Strategaeth a Rheolaeth Fasnachol** | **Argymhellwyd** | **Erbyn Rhagfyr 2025** |

*Mae risg yn dynodi risgiau, problemau, rhagdybiaethau a dibyniaethau allweddol

- **Tyngedfennol (Ei Wneud Nawr):** Er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniad llwyddiannus, mae'n bwysig iawn y dylai'r portffolio/rhaglen/prosiect weithredu ar unwaith.
- **Hanfodol (Gwneud Erbyn):** Er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniad llwyddiannus, dylai'r portffolio/rhaglen/prosiect weithredu yn y dyfodol agos. *[Nodyn i dimau adolygu – pryd bynnag y bo modd, dylid cysylltu argymhellion hanfodol sy'n seiliedig ar risg â cherrig milltir rhaglen/prosiect e.e. cyn llofnodi contract a/neu amserlen benodol e.e. o fewn y tri mis nesaf.]*
- **Argymhellwyd**: Dylai'r rhaglen/prosiect elwa o weithredu ar yr argymhelliad hwn. *[Nodyn i dimau adolygu – os yn bosibl dylid cysylltu argymhellion sy'n seiliedig ar risg â cherrig milltir portffolio/rhaglen/prosiect e.e. cyn llofnodi contract a/neu amserlen benodol e.e. o fewn y tri mis nesaf.]*

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
AndrewRT.Davies@senedd.wales

4 Awst 2025

Annwyl Andrew,

Yn dilyn cyfarfod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 17 Gorffennaf, cytunais i ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth am yr arian y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i fusnesau sy'n masnachu ag Israel.

Fel y nodais yn ystod sesiwn y Pwyllgor, gallaf gadarnhau nad oes unrhyw gymorth allforio wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i gwmnïau o Gymru i'w cefnogi i werthu arfau'n uniongyrchol i Israel ers dechrau'r rhyfel ar 7 Hydref 2023.

Yn wir, nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw gynnyrch sy’n cael ei wneud yng Nghymru sy’n cael ei gyflenwi’n uniongyrchol i Israel.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am drwyddedau allforio arfau ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth y DU i osod sancsiynau, gan gynnwys atal gwerthu F-35s a'u cydrannau'n uniongyrchol i Israel.

Dywedodd datganiad diweddar i'r wasg gan Amnest Rhyngwladol fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi grant i gwmni sy'n cynhyrchu ac yn allforio arfau sy'n cael eu defnyddio yn Israel. Er eglurder, rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol i gangen fodurol y cwmni o Gymru, sy'n cynhyrchu tiwbiau ar gyfer bysiau trydan. Defnyddiwyd y grant i adnewyddu adeiladau i ddiogelu dros 50 o swyddi modurol yng Nghrymlyn. Mae gan y cwmni 32 o safleoedd mewn 14 o wledydd, ac mae wedi cadarnhau nad yw dim o’i waith amddiffyn yn digwydd yng Nghymru.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Valley Greyhound Stadium
2 Tywn Road, Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7SP

08 August 2025,

Dear Mr. Davies,

I wanted to offer my thanks to you as Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee, for flagging the scrutiny of the proposed Bill to ban greyhound racing in Wales during your committee meeting on 17th July 2025. Despite the Welsh Government's intention to ban greyhound racing, the Valley Stadium continues to be an integral part of our community, supporting businesses and families who rely upon the track as a cornerstone of licensed greyhound racing in Wales.

Following the securing of our licence from the Greyhound Board of Great Britain in 2023, we have undertaken considerable and continued improvements both in terms of the facilities on offer and the standards we uphold. These improvements have allowed the Valley to be preserved as a community asset and cultural touchstone, while ensuring the highest standards of greyhound welfare.

Whilst the Minister himself has not visited the Valley Stadium to view these improvements first hand we would like to offer your Committee the opportunity visit the stadium. This would provide a vital opportunity to engage directly with those individuals and groups who are passionate supporters of greyhound racing, and who are devoted to improving the welfare of racing greyhounds. We believe this should be an important and integral part of the Bill scrutiny and consultation.

I would be very grateful for your consideration of the above, and we look forward to hearing from you and your colleagues in regards to our engagement as part of the consultation and scrutiny process. We would also welcome sight of the letter from the Business Committee, which outlines the timescales for the proposed introduction of the Bill.

Yours sincerely,

Katie Bennison
Valley Greyhound Stadium

**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Katie Bennison
Stadiwm Milgwn y Cymoedd
2 Heol Twyn
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7SP

19 Awst 2025

Annwyl Katie,

**Gwaharddiad arfaethedig ar rasio milgwn yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr diweddar ynghylch y Bil arfaethedig ar rasio milgwn.

Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto gan y Pwyllgor Busnes ynghylch yr amserlen ar gyfer y Bil hwn, nac ynghylch at ba bwyllgor y bydd y Bil yn cael ei gyfeirio ar gyfer gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1.

Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu â rhanddeiliaid maes o law, a byddwn yn eich annog i gadw golwg ar ein gwefan i gael rhagor o fanylion yn ystod y tymor nesaf.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eitem 4.15

**Jane Hutt AS/MS**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JH/1886/25

Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Awst 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf i'ch hysbysu bod Trosglwyddiad Cyllideb wedi'i gytuno rhwng Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, i gefnogi gweithgarwch cynhwysiant digidol yng Nghymru.

Mae'r cyllid yn cynnwys £185,418 (refeniw) a £254,950 (cyfalaf) a fydd yn datblygu ein gwaith yn ymwneud â Chenhadaeth 2 y Strategaeth Ddigidol i Gymru, a Dangosydd Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 'Statws cynhwysiant digidol'.

Mae'r cyllid hwn ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026 yn unig.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r dysgu a'r arferion gorau o ran sut y defnyddir y cyllid i gefnogi cynhwysiant digidol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraethau datganoledig.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau mewn deialog agored â Llywodraeth y DU a Llywodraethau datganoledig ar ddulliau o fynd i'r afael ag allgáu digidol a gwaith sy'n ymwneud â'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS, a chadeiryddion y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC/JS/00471/25

Mike Hedges MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.cymru

12 Awst 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol perthynas rhwng sefydliadau, rwy'n ysgrifennu i adrodd ar gyfarfod diwethaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant a'r Diwydiannau Creadigol a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2025.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Gwir Anrhydeddus Lisa Nandy AS. Roedd Gordon Lyons MLA, Gweinidog dros Gymunedau, a Dr Caoimhe Archibald, Gweinidog dros yr Economi, yn bresennol ar ran Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ac roedd Angus Robertson MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant, yn bresennol ar ran Llywodraeth yr Alban. Cynrychiolais i Lywodraeth Cymru yn y cyfarfod rhithwir hwn.

Roedd y drafodaeth yn ymdrin â'r angen am ymgysylltu mwy rheolaidd ar lefel swyddogol, Cynllun Sector y Diwydiannau Creadigol, effaith deallusrwydd artiffisial ar y diwydiannau creadigol, yr Adolygiad o Siarter y BBC a gweithgarwch rhyngwladol gan gynnwys Ewrop Greadigol. Yn ystod y cyfarfod, pwysleisiais bwysigrwydd ymgysylltu â'r gwledydd ar weithgarwch traws-DU, codais bryderon ynglŷn â'r defnydd o Ddeddf y Farchnad Fewnol i wario mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig yng Nghymru, yr angen i gefnogi ein sectorau i groesawu manteision deallusrwydd artiffisial wrth hefyd yn darparu amddiffyniadau digonol a thynnu sylw at yr angen am amserlenni rhesymol i adolygu Cylch Gorchwyl drafft yr Adolygiad o Siarter y BBC.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, ac i Gadeiryddion y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir

**Jack Sargeant AS/MS**
Minister for Culture, Skills and Social Partnership
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

**Y Pwyllgor Busnes**

**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

21 Awst 2025

**Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Annwyl Andrew,

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ynghylch pumed flwyddyn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Nododd y papur yr amserlenni arfaethedig ar gyfer nifer o Filiau, gan gynnwys Bil ar reoleiddio llety ymwelwyr yng Nghymru.

Ers hynny, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno mewn egwyddor y dylid cyfeirio'r Bil hwnnw at Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at ddibenion gwaith craffu yng Nghyfnod 1.

Er hwylustod, rwyf wedi amgáu amserlen ddangosol ar gyfer y Bil yn Atodiad A. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi eich barn inni ynghylch yr amserlen arfaethedig.
Cofion cynnes,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Atodiad A: Amserlen enghreifftiol ar gyfer y Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr**

| Carreg filltir | Dyddiad |
|---|---|
| Cyflwyno'r Bil yn y Senedd | 20 Hydref 2025 |
| Terfyn amser ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor | 19 Rhagfyr 2025 |
| Diwedd Cyfnod 1 – Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol a chynnig ar benderfyniad ariannol (os oes angen) | 13 Ionawr 2026 |
| Dechrau Cyfnod 2 | 14 Ionawr 2026 |
| Y dyddiad cynharaf posibl ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 | 4 Chwefror 2026 |
| Diwedd Cyfnod 2 – terfyn amser ar gyfer ystyriaethau Cyfnod 2 y Pwyllgor | 13 Chwefror 2026 |
| Dechrau Cyfnod 3 | 16 Chwefror 2026 |
| Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn | 10 Mawrth 2026 |
| Cyfnod 4 yn y Cyfarfod Llawn | 17 Mawrth 2026 |
| Cydsyniad Brenhinol | Ebrill 2026 |


Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

10 Medi 2025

Annwyl Lywydd,

**Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Diolch ichi am y cyfle i leisio barn am yr amserlen arfaethedig ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cymru). Hoffwn danlinellu fy mhryderon ynghylch hyd y Cyfnod 1 arfaethedig ar gyfer y Bil, sef pryderon a amlygais yn fy llythyr dyddiedig 23 Gorffennaf.

Rwy'n teimlo o hyd bod yr amserlenni arfaethedig yn rhy fyr ar gyfer gwaith craffu o'r ansawdd y byddwn yn ei ddisgwyl gan unrhyw un o Bwyllgorau'r Senedd. Mae gwaith craffu o safon uchel yn rhan hanfodol o'r broses ddeddfu, ac yn arwain at ddeddfwriaeth well. Gan nad oes digon o amser ar ôl yng nghalendr y Senedd ar gyfer y broses Cyfnod 1 drylwyr y mae'r Bil hwn yn ei haeddu cyn y diddymiad, credaf y dylid ailystyried cyflwyno'r Bil. Drwy wneud hynny gall y Llywodraeth newydd ar ôl yr etholiad penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r Bil hwn, ac os felly, bydd mewn sefyllfa i roi digon o amser i'n Pwyllgor olynol gyflawni ei rôl graffu hanfodol.

Mae twristiaeth yn gonglfaen i economi Cymru. Yn ôl ymchwil gan Lywodraeth Cymru, yn 2022 cynhyrchodd llety ymwelwyr yn unig 1.2% o werth ychwanegol gros Cymru, sy'n ychydig o dan £1 biliwn i'n heconomi, ac yn gyfrifol am tua 2% o'r holl swyddi. Mae arian a werir gan ymwelwyr sy'n aros mewn llety, hefyd yn cefnogi busnesau eraill yng Nghymru. Mae tua 12% o holl swyddi Cymru yn rhan o'r economi ymwelwyr yn fwy eang. Bydd newidiadau sylweddol i lety ymwelwyr, megis y rheini a fydd, fe gredwn, yn cael eu cynnwys yn y Bil hwn, yn cael effaith fawr ar swyddi Cymru a'n heconomi, felly maent yn haeddu ystyriaeth ddifrifol.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

I’r Pwyllgor gadw at y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad a gynigir yn y llythyr, amcangyfrifaf na fyddai ganddo ond tair wythnos i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Rhan allweddol o rôl y Pwyllgor o ran craffu deddfwriaethol yw casglu barn a safbwyntiau partïon â chanddynt fuddiant ac adlewyrchu'r rhain yn yr adroddiad Cyfnod 1. Ni fydd tair wythnos yn rhoi amser digonol i randdeiliaid ystyried y Bil a chyflwyno ymateb llawn o ansawdd uchel, yn enwedig os ydynt yn sefydliadau cynrychioliadol ac mae angen iddynt ymgynghori â'u haelodau. Ar ben hynny, mae llawer o fusnesau llety ymwelwyr yn fach iawn, ac nid oes ganddynt yr adnoddau i fonitro gwaith y Senedd yn agos. Efallai na fydd gan fusnesau o'r fath amser i ymateb o fewn tair wythnos, neu'n waeth fyth, efallai na fyddant hyd yn oed yn ymwybodol bod ymgynghoriad wedi digwydd, hyd nes iddo gau.

Mae'r cynllun trwyddedu hwn yn ganlyniad addewid maniffesto ac ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Nid deddfwriaeth frys sy'n ymateb i ddigwyddiad sydyn neu risg sy'n dod i'r amlwg mohoni. Rwy'n dal i fod yn siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cynllunio ei rhaglen ddeddfwriaethol pum mlynedd yn ddigon da i roi digon o amser i'r Pwyllgor gyflawni ein rôl, a chraffu'n briodol ar eu deddfwriaeth arfaethedig.

Rwy'n deall yn llwyr fod y Pwyllgor Busnes yn gorff gwleidyddol ac, o'r herwydd, rwy'n disgwyl y bydd gwleidyddiaeth yn drech na'r angen i wneud deddfwriaeth dda. Rwy'n rhagweld, felly, y bydd angen inni weithio gyda’r amseriad a nodir yn yr amserlen ddrafft. Os mai dyma’r achos, hoffwn ail-bwysleisio fy ngheisiadau am fesurau lliniaru gan Lywodraeth Cymru. Sef:

- Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at ei hymrwymiad i gyhoeddi'r Bil pan gaiff ei anfon at y Llywydd ar gyfer ystyriaeth cyn cyflwyno a dylai fynd ymhellach na hyn drwy gyhoeddi'r Bil drafft cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl os yw hynny cyn iddo gael ei anfon ar gyfer ystyriaeth cyn cyflwyno. Os nad yw hyn yn bosibl, gofynnaf am i gopi preifat cynnar o’r Bil drafft gael ei rannu â'r Pwyllgor, gyda dealltwriaeth y gallem wedyn rannu'r drafft hwnnw â rhanddeiliaid allweddol. Byddai hyn yn sicrhau bod gan y sefydliadau dan sylw gymaint o amser â phosibl i gyfrannu at waith y Pwyllgor.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at ei hymrwymiad i sicrhau bod swyddogion ar gael i roi sesiynau briffio technegol preifat cyn i’r Bil gael ei gyflwyno. Credaf ei fod yn angenrheidiol o ystyried yr amser cyfyngedig y bydd gan yr Aelodau i ystyried y biliau.

Pwysleisiaf unwaith eto fy mod i’n bryderus iawn ynghylch yr amserlen arfaethedig. Os mai hon yw’r amserlen y mae'n rhaid inni weithio iddi, bydd angen i'r Pwyllgor ‘dorri ei chôt yn ôl y brethyn’ a chynnal gwaith craffu cystal ag y gallwn, o ystyried yr amser a ganiateir. Fodd bynnag, ni fydd hyn o'r ansawdd y byddwn fel arfer yn ei ddisgwyl ac efallai na fydd modd i’r Pwyllgor roi'r un lefel o ystyriaeth fanwl a phriodol i bob elfen o'r Bil.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID-PO-408-25

Mike Hedges AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

22 Awst 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cael ei gynnal ar 8 Medi. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru ac yn cadeirio'r cyfarfod.

Disgwylir i'r cyfarfod ganolbwyntio ar ansawdd dŵr, Cytundeb Cyffredin yr UE-DU, y Gronfa Pysgota a Thwf Arfordirol, a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ar ôl y cyfarfod byddaf yn eich diweddaru ar drafodaethau a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yr eiddoch yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HID/PO/446/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

16 Medi 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y bwriedir am 8 Medi 2025 wedi'i ohirio. Mae swyddogion yn gweithio i nodi dyddiad newydd. Byddaf yn diweddaru'r Pwyllgor pan fydd dyddiad newydd yn cael ei nodi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yr eiddoch yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau)

## Ymateb i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (Gorffennaf 2025)

Ym mis Gorffennaf 2025 cyflwynodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ei adroddiad ar Fil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau). Mae'r adroddiad yn cynnwys dau gasgliad ac un argymhelliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad .......... 3**

**2. Ymateb i'r ddau argymhelliad .......... 4**

Casgliad 1 .......... 4

Casgliad 2 .......... 4

**3. Ymatebion i'r un argymhelliad .......... 5**

Argymhelliad 1 .......... 5

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2024. Bil Aelodau Preifat yw'r Bil, a gyflwynwyd gan Dr Danny Chambers AS ac sydd yn cael ei gefnogi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfyngu ar fewnforio cŵn, cathod a ffuredau yn fasnachol ac ar eu symud yn anfasnachol i mewn i'r Deyrnas Unedig o drydydd gwledydd, ar sail lles anifeiliaid. Daeth hynt y Bil drwy Dŷ'r Cyffredin i ben ar 4 Gorffennaf 2025 a chynhaliwyd y Darlleniad Cyntaf ohono yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 7 Gorffennaf.

Mae angen cydsyniad deddfwriaethol gan fod y Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, sef lles anifeiliaid. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd ar 21 Mai 2025. Ar 7 Gorffennaf 2025, cytunodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) ar ei adroddiad ar yr LCM. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau gasgliad ac yn argymhelliad.

Gyda diolch i aelodau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am eu hadroddiad ar y Bil, rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau unigol ac argymhelliad yr Adroddiad isod.

# 2. Ymateb i'r ddau argymhelliad

## Casgliad 1

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad:

> *"Nid yw'r Pwyllgor wedi dod o hyd i unrhyw reswm i wrthwynebu i'r Senedd gytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r LCM."*

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r casgliad hwn.

## Casgliad 2

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad:

> *"Rhaid craffu'n ofalus ar unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil hwn, pe bai'n cael ei basio, er mwyn osgoi atal anifeiliaid sydd wedi cael llawdriniaeth gyfreithlon neu sydd wedi cael eu cam-drin ond sydd wedi'u hachub a'u hailgartrefu rhag teithio.*

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r casgliad hwn.

# 3. Ymatebion i'r un argymhelliad

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell

> *"Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor hwn a'u holynwyr am unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir ar eu cyfer yn y Bil."*

**Ymateb:** Derbyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Pwyllgor, a'u holynwyr, yn cael eu hysbysu am ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r Bil a'i weithredu, gan gynnwys unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir ar eu cyfer ynddo. Bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o'n trefniadau craffu ac adrodd arferol gyda'r Senedd.

**Goblygiadau ariannol:** Dim.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE/PO/428/2025

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

02 Medi 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant, a'r cyfarfod a gynhelir ar 9 Medi 2025.

Bydd y Grŵp Rhyngweinidogol yn cael ei gadeirio gan Weinidog Busnes a Chyflogaeth Llywodraeth yr Alban, Richard Lochhead ASA. Bydd Liz Lalley, Cyfarwyddwr Strategaeth Economaidd a Thwf Gwyrdd, yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod gan y byddaf i'n mynychu digwyddiad Gweinidogol arall.

Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar weithredu Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU ac yn gyfle i drafod sgiliau a chyflwyniad gan Skills England.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE/PO/439/2025

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

10 Medi 2025

Annwyl Mike,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 2 Medi ac yn unol â'r cytundeb perthynas rhyng-sefydliadol, ysgrifennaf i roi gwybod i chi fod y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant a oedd i fod i gael ei gynnal ar 9 Medi wedi'i ohirio.

Byddaf yn eich hysbysu unwaith y bydd dyddiad newydd wedi'i gadarnhau.

Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN
ANGLESEY FREEPORT
Ffyniant ledled Ynys Môn a Gogledd Cymru
Prosperity for Anglesey and North Wales

Andrew RT Davies MS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru, Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

11 Medi 2025

Annwyl Cadeirydd,

Rydym yn falch o gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU bellach wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn (FBC) ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn.

Yn ogystal, mae cynlluniau Stena Line ar gyfer Parc Ffyniant, parc technoleg a data 200,000 medr sgwâr wedi'i leoli o fewn un o'n safleoedd treth dynodedig, wedi derbyn caniatâd cynllunio amlinellol. Rhagwelir y bydd y cynlluniau'n creu hyd at 1,200 o swyddi newydd ar yr ynys, gyda'r potensial i gynhyrchu gwerth ychwanegol gros o £578 miliwn ar ei anterth, a chynorthwyo buddsoddiad y DU mewn data ac ynni adnewyddadwy.

**Achos Busnes Llawn**

Bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn cyflawni nodau cyffredin Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y rhaglen Parthau Strategaeth Ddiwydiannol ehangach, yn cynnwys sicrhau bod y Porthladd Rhydd yn gweithredu fel canolfan ar gyfer masnach fyd-eang, arloesedd a buddsoddiad, gan gynorthwyo talent leol a chroesawu cyfleoedd cyflogaeth newydd, yn enwedig o fewn ynni carbon isel.

Bydd y Porthladd Rhydd yn dod â buddsoddiad sylweddol a buddion economaidd hirdymor i'r ynys ac i Ogledd Cymru, gan helpu i fynd i'r afael â'n hanghenion lleol a rhanbarthol. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu ymhellach i amddiffyn yr iaith Gymraeg a chynnal cymunedau cynaliadwy.

Yn dilyn ein diweddariad yn gynharach eleni am gymeradwyo ein Hachos Busnes Amlinellol a dynodi dau o'n safleoedd treth, 'Parth Ffyniant Ynys Môn' a 'Safleoedd Treth Canol Ynys Môn', mae cymeradwyo ein Hachos Busnes Llawn yn golygu bod pob offeryn angenrheidiol bellach yn eu lle, a bydd y Porthladd Rhydd yn dechrau ar y cam cyflawni.

Rydym wrthi'n cwblhau ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac yn obeithiol y cytunir arnynt yn fuan yn yr hydref. Unwaith y bydd yn cael ei gymeradwyo, bydd y safle'n helpu i agor £25mil o gyfalaf sbarduno'r llywodraeth, gan alluogi sefydlu'r Porthladd Rhydd fel endid busnes. Rydym hefyd yn rhagweld cymeradwyo Safle Treth Gogledd Ynys Môn yn ddiweddarach eleni.

**Parc Ffyniant**

Wrth i ni gwblhau ein hachosion busnes, mae cynnydd wedi ei wneud ar lawr gwlad er mwyn sicrhau bod y Porthladd Rhydd yn gallu cyflwyno ei weledigaeth yn gyflym.

Rydym yn falch bod caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i sicrhau ar gyfer y Parc Ffyniant, cyn-safle Alwminiwm Môn ar gyrion Caergybi, ac o fewn ein safle treth 'Parth Ffyniant ynys Môn'. Mae llwyddiant y cais hwn yn nodi cam sylweddol tuag at gyflawni ein hymrwymiadau twf allweddol.

Mae'r cynlluniau yn cynnwys dros 220,000 metr sgwâr o ganolfan ddata, datblygiad diwydiannol a swyddfa, fel rhan o gampws carbon isel newydd. Bydd System Storio Ynni Batri (BESS) ar y safle hefyd, er mwyn elwa ar y cysylltiad sydd eisoes yno â'r grid.

Ar eu gorau, rhagwelir y bydd y cynigion yn cynhyrchu twf o hyd at £578 miliwn yn yr economi leol bob blwyddyn, ac yn creu oddeutu 1,200 o swyddi. Bydd y prosiect hefyd yn cyfeirio buddsoddiad targedig at gyfleoedd hyfforddiant lleol, addysg, a datblygu sgiliau. Bydd hyn yn sicrhau bod cymunedau ledled Ynys Môn a Gogledd Cymru yn elwa o gyfleoedd yn agos at eu cartref, gan helpu i amddiffyn diwylliant a threftadaeth y rhanbarth.

Mae ein cynlluniau yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Llywodraeth y DU i roi hwb i dwf economaidd, yn cynnwys ar lefel ranbarthol. Fel rhan o'n gweledigaeth, bydd y safle ar reng flaen y chwyldro Deallusrwydd Artiffisial, ac rydym wedi cyflwyno cais dros Ynys Môn fel rhan o fenter Parthau Twf Deallusrwydd Artiffisial yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT).

Rydym yn gwerthfawrogi'ch cefnogaeth wrth i ni symud ymlaen gyda'n hachosion busnes.

Os hoffech drafod y Porthladd Rhydd ymhellach, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy info@angleseyfreeport.co.uk.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi ar ein gweledigaeth ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn, a chynorthwyo i sicrhau dyfodol economaidd cadarnhaol i Ogledd Cymru.

Cofion Cynnes,

Ian Hampton
Rheolwr Gyfarwyddwr
Porthladd Rhydd Ynys Môn
Stena Line

Dylan Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Llywodraeth Cymru

Anna McMorrin AS
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Swyddfa Cymru)
Tŷ'r Cyffredin

17 Medi 2025

Annwyl Rebecca ac Anna,

**Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol Cymru**

Oherwydd eu hamcanion allweddol fel ysgogwyr twf economaidd, mae'r Pwyllgor hwn a'i ragflaenydd wedi cymryd diddordeb brwd ym mhedair Bargen Twf Dinesig a Rhanbarthol Cymru. Yn dilyn gwaith a wnaed gan y Pwyllgor ar y Bargeinion yn 2023, gwnaethom benderfynu gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y bargeinion a'r rhanddeiliaid yn nhymor yr haf 2025. Nod y gwaith hwn oedd cynnal 'archwiliad iechyd' cyflym ar gynnydd pob un o'r cytundebau. I lywio'r gwaith hwn, mae'r Pwyllgor wedi:

- cymryd tystiolaeth gan Fargen Twf Canolbarth Cymru a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 4 Mehefin;
- cymryd tystiolaeth gan Fargen Dwf Bae Abertawe a Bargen Twf y Gogledd ar 26 Mehefin; a
- chynnal ymgynghoriad cyhoeddus.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae'r llythyr hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel o ganfyddiadau'r sesiynau hynny, yn tynnu sylw at rai meysydd sy'n destun pryder, ac yn cynnwys cwestiynau y byddai'r Pwyllgor yn croesawu atebion iddynt. Ar y cyfan, mae wedi'i gynllunio i fod yn wiriad cyflym o'r pedair bargen.

**Bargen Twf y Gogledd**

Mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch cynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru. Clywsom fod y Fargen ymhell ar ei hôl hi o ran ysgogi buddsoddiad sector preifat a chreu swyddi. Nodaf fod y Prif Weinidog yn rhannu pryderon ynghylch y Fargen a'i bod wedi dweud yn y Cyfarfod Llawn, ym mis Gorffennaf, "bod rhaid i ni dderbyn y ffaith bod hyn wedi bod yn siomedig iawn, o ran y cyflymder sydd wedi bod yn gysylltiedig â bargen twf y gogledd.  Dyna pam rydym ni, yn y Llywodraeth, yn ceisio ysgogi'r cyd-bwyllgor corfforedig sy'n gyfrifol am gyflawni hyn."

Trawsfynydd

Mae Bargen Twf Gogledd Cymru yn wynebu heriau sylweddol. Mae'r her fwyaf yn deillio o'r penderfyniad gan Great British Nuclear i beidio â defnyddio Trawsfynydd fel safle ar gyfer cyflwyno Adweithyddion Modiwlaidd Bach. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nododd Uchelgais Gogledd Cymru fod prosiect Trawsfynydd yn wreiddiol "yn cyfrif am 12.5% o'r targed swyddi a 40% o'r targed buddsoddi ar gyfer y Cynllun Twf". Dywedodd Uchelgais Gogledd Cymru eu bod "yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni targedau gwreiddiol y Cynllun Twf, ond maent yn credu bod angen i'r llywodraeth fod yn ymatebol wrth ystyried newidiadau i'r targedau hyn lle bo'n briodol o ystyried y newidiadau ers mis Rhagfyr 2020."

Yn ein sesiwn dystiolaeth eglurodd ei fod wedi edrych ar gael gwared ar y prosiectau nad oeddent yn hyfyw o fewn amserlen y fargen twf, a'i fod hefyd wedi newid ei ddull gweithio ar y portffolio hwnnw o ran cael rhestr wrth gefn. Nododd fod rhai prosiectau wedi cael eu dileu'n gyfan gwbl, a bod rhai wedi symud i'r rhestr wrth gefn. Nododd fod hynny'n bwysig iawn oherwydd ei fod yn rhoi hyblygrwydd i fod ychydig yn fwy deinamig wrth dderbyn prosiectau newydd, ac yn creu elfen o gystadleurwydd gan nad yw arian ar gyfer y prosiectau hynny wedi'i glustnodi hyd nes y bydd cynllun busnes clir ar waith.

Targedau

O ran buddsoddi, dywedodd Uchelgais Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor fod buddsoddiad gwirioneddol y sector preifat yn isel iawn ar hyn o bryd, sef £1.8 miliwn. Ychwanegodd fod hynny cyn i brosiectau yn y cam cyflawni. Nododd mai prosiectau addysg bellach neu addysg uwch ydynt, a bod lefel y cyllid cyfatebol ar eu cyfer yn llawer is. O'r chwe phrosiect arall sydd i fod i symud i'r cam cyflawni, ychwanegodd, y targed buddsoddi yw £275 miliwn, a byddai 50 y cant o hynny o'r sector preifat.

O ran creu swyddi, dywedodd wrth Aelodau ei fod gryn dipyn y tu ôl i'r rhagolygon gwreiddiol, ac aeth ymlaen i ddweud mai dim ond 35 o swyddi sydd wedi'u creu, ond bod hynny o ganlyniad i un prosiect yn unig sydd ar waith a thri sydd yn y broses gyflawni. Nododd felly eu bod yn gobeithio gweld cynnydd sylweddol yn y ffigur hwnnw dros y blynyddoedd nesaf, wrth i fwy a mwy o brosiectau symud ymlaen i'r broses gyflawni. Eglurodd Uchelgais Gogledd Cymru eu bod yn teimlo bod y rhagolygon gwreiddiol ynghylch creu swyddi ar adeg llofnodi'r cytundeb yn llawn tuedd optimistiaeth o ran pa mor aeddfed oedd rhai o'r prosiectau a pha mor gyflym y byddent yn cael eu cyflawni.

### Cyllid

Nododd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd fod problemau wedi bod o ran cael cyllid ar gyfer y Fargen Twf. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod "yn siomedig gan benderfyniad y Llywodraeth i beidio â dyfarnu'r cyllid blynyddol am yr ail flwyddyn yn olynol, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynyddu cyflymder cyflawni'r Cynllun Twf". Yn ein sesiwn ymhelaethodd ar hyn gan ddweud ei fod yn ceisio eglurder gan y ddwy lywodraeth oherwydd pan ddaeth y llythyr ar gyfer y flwyddyn gyntaf, nodwyd yn glir bod y cyllid yn dal i fod ar gael, ac y byddai'n cael ei ail-broffilio mewn blynyddoedd diweddarach. Nododd nad oedd y frawddeg honno yn bresennol yn y llythyr eleni, sy'n awgrymu bod rhywfaint o risg i hynny, ac mai dyna'r amwysedd y mae'n gobeithio cael eglurhad yn ei gylch gyda Llywodraethau.

### Angen eglurder

Rydym yn derbyn y cafwyd rhai heriau gyda'r fargen ac yn gwerthfawrogi pa mor agored a diffuant y mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi bod wrth roi tystiolaeth. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn teimlo bod cwestiynau difrifol i'w gofyn ynghylch perfformiad y Fargen a'r berthynas rhwng y Fargen a'r ddwy lywodraeth.

Mae'n hanfodol bod rhywbeth yn cael ei wneud i sicrhau y gall Bargen Twf y Gogledd gyflawni ei nod, sef gwella economi Gogledd Cymru, ac y gall dinasyddion gogledd Cymru weld budd o ganlyniad i'r cyllid sylweddol a ddyrannwyd.

Roedd y Pwyllgor yn siomedig o glywed bod yn rhaid i Uchelgais Gogledd Cymru ofyn am eglurhad gan y ddwy lywodraeth ynghylch a fyddent yn cael y £240 miliwn llawn o hyd. O ystyried yr heriau o ran cyflawni y mae Uchelgais Gogledd Cymru eisoes yn eu hwynebu, gan ychwanegu ansicrwydd ychwanegol ynghylch y cyllid fydd ar gael iddo yn sicr o greu rhagor o anawsterau. Mae'n hanfodol bod y mater hwn yn cael ei egluro cyn gynted â phosibl.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut roedd cymaint o dargedau'r Fargen, 40% o'r targed buddsoddi a 12.5% o'r swyddi, yn dibynnu ar lwyddiant un cynllun. Yn enwedig gan ei bod ymhell o fod yn sicr y byddai hyn yn dwyn ffrwyth a bod y penderfyniad terfynol ynghylch a fyddai'r cynllun hwnnw'n bwrw ymlaen yn gyfan gwbl y tu hwnt i reolaeth Uchelgais Gogledd Cymru. Mae angen adolygu'r broses hon o wneud penderfyniadau i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu.

O ystyried y targed o ddatgarboneiddio pob adeilad cyhoeddus erbyn 2030, yr angen i wella trafnidiaeth gyhoeddus a helpu aelwydydd i symud i ffwrdd o ddefnyddio tanwyddau ffosil i gynhesu eu cartrefi, mae'r Pwyllgor yn ei chael hi'n anodd deall pam mae aelodau Bargen Twf y Gogledd yn cael cymaint o anhawster o ran dod o hyd i brosiectau amgen cynaliadwy gwerth £50m.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU:

- Sicrhau eu bod yn monitro ac yn cefnogi Uchelgais Gogledd Cymru i gyflawni'r fargen ond hefyd y bydd yr arian cyhoeddus sylweddol a ddyrannwyd i'r Fargen yn creu'r swyddi a'r buddsoddiad a fwriedir;
- Nodi sut y byddant yn cefnogi ac yn monitro cynnydd gyda Bargen Twf y Gogledd yn y dyfodol;
- Cynnig eglurder brys ynghylch y cyllid sydd ar gael i Fargen Twf y Gogledd; ac
- Archwilio pa wersi y gellir eu dysgu o fethiant prosiect Trawsfynydd ac effaith hynny ar y Fargen.

### Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

#### Creu swyddi

Yn ei sesiwn dystiolaeth dywedodd rhaglen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wrthym ei bod ychydig ar ei hôl hi o ran ei darged i greu 25,000 o swyddi newydd. Clywodd y Pwyllgor fod y Fargen Ddinesig, 9 mlynedd ar ôl ei chytuno, wedi creu 1,537 o swyddi newydd hyd yn hyn. Dywedodd mai nifer y swyddi uniongyrchol a grëwyd oedd 1,537, a bod 1,152 ohonynt yn swyddi adeiladu. Nododd fod 1,029 wedi'u diogelu. Roedd cyflogaeth graddedigion drwy gynllun graddedigion y rhaglen yn 261, ac roedd 93 o brentisiaethau. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd i Aelodau fod y rhaglen ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed.

Nododd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y byddai cyfran fawr o'r swyddi newydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r gwaith Metro yr oedd Trafnidiaeth Cymru yn ei wneud gan ddefnyddio rhan o gyllid y fargen ddinesig, a dywedodd y rhaglen wrth Aelodau fod targedau'n cael eu rhannu gyda Trafnidiaeth Cymru, ond y byddai'n disgwyl, ar y gyfradd gynnydd bresennol, y byddai'n agosach i 27,100.

Pan ofynnwyd iddo sut y rhannwyd y targed creu swyddi rhwng swyddi a gaiff eu creu o ganlyniad i waith y Metro a chronfa fuddsoddi ehangach Prifddinas-Ranbarth Caerdydd dywedwyd wrth y Pwyllgor na fu unrhyw benderfyniad ymwybodol i rannu'r targedau. Dywedwyd bod y rhaglen am gael ateb i hynny hefyd: sut caiff rhain eu dosrannu a sut yr adroddir arnynt? Roedd yr Aelodau wedi

synnu o glywed nad oedd unrhyw eglurder i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, na Trafnidiaeth Cymru, ynghylch eu cyfrifoldeb o ran y targed creu swyddi.

Pan ofynnwyd am ledaeniad rhanbarthol y swyddi a grëwyd gan y Fargen Ddinesig, dywedodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wrth Aelodau nad oedd y rhaglen yn monitro hynny ynddo'i hun, gan fod hynny'n anodd. Nododd y rhaglen nad yw marchnadoedd economaidd yn parchu ffiniau gweinyddol ond ei bod yn gwneud ymdrech fwy, ond bod mynd i'r afael â'r mater yn anodd.

Rydym yn derbyn y gall fod rhywfaint o amwysedd ynghylch pwy yw'r rhai sy'n elwa o unrhyw fuddsoddiad sector cyhoeddus ac yn enwedig ysgogiad economaidd, ac y gall hyn ei gwneud yn anodd deall sut mae buddsoddiadau wedi bod o fudd i wahanol ardaloedd. Fodd bynnag, nid yw hon yn her unigryw i'r prosiect hwn nac i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r Pwyllgor yn pryderu, heb ddealltwriaeth glir o effaith ddaearyddol cefnogaeth, na all Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gynllunio ei waith yn gywir ac y gallai arwain at sefyllfa lle mae gwahanol rannau o'r rhanbarth yn cael eu ffafrio neu eu hesgeuluso yn anfwriadol.

O ran creu swyddi, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU:

- Weithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Trafnidiaeth Cymru i sicrhau bod targedau creu swyddi clir ar gyfer rhannau'r Metro a Chronfa Fuddsoddi Ehangach y Fargen Ddinesig; a
- Sicrhau bod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn monitro cyhyd ag y gall lle mae swyddi'n cael eu creu er mwyn sicrhau nad ydynt yn ffafrio neu'n esgeuluso gwahanol rannau o'r Rhanbarth yn anghymesur ar ddamwain.

### Aberddawan

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi wynebu heriau sylweddol yn sgil prynu hen safle Gorsaf Bŵer Aberddawan. Cyngor Caerdydd oedd yr awdurdod contractio ar gyfer y contract a ddyfarnwyd i ddymchwel y safle. Ym mis Ionawr gwnaeth y Cyngor gyfaddef atebolrwydd mewn perthynas â her gaffael gan dendrwr aflwyddiannus mewn perthynas â'r contract hwnnw.

Yn ein sesiwn dywedodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wrth y Pwyllgor fod yr achos cyfreithiol wedi dod i ben a'i fod wedi cynnwys ffigur setliad o £5.25 miliwn. Dywedodd fod Deloitte wedi cael comisiwn i gynnal adolygiad annibynnol ac y byddai'r canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi, yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol. Nododd hefyd fod hyn yn peri risg i'w henw da a'u bod yn lliniaru hyn mewn amryw ffyrdd.

Mewn sesiwn flaenorol ym mis Medi 2023, eglurodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y byddai angen buddsoddiad sylweddol yn Aberddawan. Gan gyfeirio at y gost o £8.6 miliwn i'w brynu a'r £30 miliwn a neilltuwyd ar gyfer dymchwel y safle dywedodd wrth y Pwyllgor fod £40 miliwn yn ddiferyn yn y môr

ac na fyddai hynny hyd yn oed yn crafu'r wyneb o ran yr hyn sydd ei angen. Nododd y byddai angen cannoedd o filiynau o bunnoedd i sicrhau ei fod yn llwyddiant ac yn realiti a fydd o fudd i'r rhanbarth a phobl leol ym Mro Morgannwg hefyd.

Yn ein sesiwn ddiweddaraf soniwyd eto am y cyfleoedd yr oeddent yn teimlo bod y safle yn eu cynnig gan nodi mai Aberddawan yw'r y cafwyd y diddordeb mwyaf ynddo nid yn unig gan fuddsoddwyr domestig y DU, ond yn rhyngwladol. Nodwyd bod hynny oherwydd bod y safle'n agos at y Môr Celtaidd, dwy o is-orsaf ar y grid cenedlaethol, 18 miliwn tunnell o ludw tanwydd maluriedig, sydd â gwerth uchel ac yn unigryw yn y DU. Dywedodd y rhaglen fod darparwyr canolfannau data yn cysylltu gan eu bod yn gwybod y lefelau o gysylltedd sydd eu hangen i yrru'r pŵer cyfrifiadurol ar gyfer y dyfodol.

Fodd bynnag, gwnaeth y rhaglen hefyd ddiwygio'r cyllid sydd ei angen yn sylweddol, gan ddweud nad oes gan y rhaglen bocedi digon dwfn ar gyfer yr hyn sydd ei angen ar Aberddawan. Ychwanegodd y byddai'r gost yn debygol o fod yn gannoedd o filiynau, ac efallai hyd yn oed yn fwy na hynny. Nododd mai'r bwriad yw cwblhau'r broses ddymchwel ac adfer, clirio'r safle ac, yn y cyfamser, dechrau hybu rhai o'r cyfleoedd y mae'r rhaglen yn dechrau eu datblygu.

Rydym yn pryderu bod y Fargen Ddinesig wedi prynu'r safle yn Aberddawan ac wedi cychwyn ar brosiect y bydd angen swm anhysbys o arian ar ei gyfer (o bosibl dros filiwn o bunnoedd) er mwyn iddo lwyddo. Bydd angen sicrhau swm sylweddol o'r arian hwn o'r sector preifat, sy'n golygu ei bod hyd yn oed yn bwysicach bod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cymryd pob cam posibl i liniaru effaith digwyddiadau diweddar ar hyder buddsoddwyr.

O ran Aberddawan, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU:

- Geisio eglurhad gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ynghylch yr amcangyfrif diweddaraf o gyfanswm costau datblygu prosiect Aberddawan, gan gynnwys o ble maent yn gweld y buddsoddiad hwn yn dod, a rhannu'r wybodaeth hon gyda'r Pwyllgor; a
- Monitro'r gwariant ar Aberddawan yn ofalus i sicrhau'r gwerth gorau am arian ac nad yw'r prosiect yn dod yn fenter gwastraffus sy'n amsugno arian cyhoeddus heb reolaeth neu'n un sy'n taflu arian da ar ôl arian drwg.

### Targed Buddsoddiad Ychwanegol

Un o dargedau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw denu £4bn o fuddsoddiad ychwanegol yn y rhanbarth. Pan ofynnwyd i'r rhaglen a oedd ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn dywedodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wrth y Pwyllgor ei bod yn agosach at ddwy filiwn o bunnoedd ar hyn o bryd, gan nad yw'r gronfa fuddsoddi gyfan wedi'i wario na'i neilltuo eto.

Mae hyn yn destun pryder a bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cynnydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar fuddsoddiadau ychwanegol. Rwy'n gobeithio bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU hefyd yn rhannu'r pryder hwn ac y byddant hefyd yn monitro cynnydd yn y maes hwn yn agos.

**Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

Cynnydd hyd yma

Yn ein sesiwn dystiolaeth, dywedodd Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (y cyfeirir ato fel y Fargen Ddinesig neu'r Fargen o hyn ymlaen) wrth y Pwyllgor ei fod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran eu symud o'r cam dichonoldeb i'r cam cyn cyflawni, ac yna i'r camau cyflawni a chwblhau. Dywedodd wrth yr Aelodau fod tri phrosiect wedi'u cwblhau gwerth tua £113 miliwn. Nododd fod gan y rhaglen, erbyn diwedd 2024-25, chwe phrosiect wedi'u cwblhau gwerth £210 miliwn. Nododd fod 19 o brosiectau ar y gweill, gyda gwerth buddsoddiad o £761 miliwn, o'i gymharu â 17 o brosiectau a nodwyd yn flaenorol, gyda gwerth o £415 miliwn. Nododd fod 14 o brosiectau yn y cam cyn cyflwyno, gyda chyfanswm buddsoddiad o £403 miliwn, o'i gymharu â'r 15 a oedd gynt yn y cyfnod cyn cyflawni, gyda chyfanswm gwerth o £711 miliwn.

Tynnodd sylw at y ffaith bod y rhaglen wedi clustnodi'r holl gyfalaf, bod 896 o swyddi wedi'u creu a'i fod wedi creu £133 miliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat. Nododd fod hyn yn gynnydd da.

Cymorth i weithwyr Port Talbot a Tata

Clywodd y Pwyllgor fod Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn gweithio i gefnogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot a gweithwyr yr effeithiwyd arnynt gan y penderfyniad i gau ffwrneisi chwyth Tata. Dywedodd y rhaglen wrth Aelodau ei bod eisoes yn cyflawni'r ymyriadau gweithgynhyrchu clyfar, mae gennym ni brosiect Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru – SWITCH – a'r prosiect sgiliau a thalent. Nododd fod yr ymyriadau hynny yr un mor ddefnyddiol, felly, o ystyried effeithiau'r penderfyniadau ar Tata Steel. Nododd ei bod yn gobeithio y bydd y prosiectau eraill a gaiff eu cyflawni yn creu cyfleoedd i bobl symud ar draws, os ydynt yn colli eu swydd gyda Tata Steel, i ddiwydiannau eraill, ac yn eu helpu i ailhyfforddi. Nododd fod y rhaglen wedi'i chysylltu â rhaglenni sydd wedi'u sefydlu i helpu gyda hynny. Nododd er nad yw'r fargen ddinesig yn rhoi'r holl atebion, ei bod yn rhan annatod o gynorthwyo'r hyn y mae'r rhaglen yn ceisio'i wneud gyda'r fargen ddinesig, ac y dylai fod o fudd i fodloni rhai o'r effeithiau hynny a grëwyd gan y penderfyniadau ar Tata Steel.

Heriau

Nododd y Fargen ddwy brif her. Roedd un yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng cyllid Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Eglurodd nad yw'n elwa ar gronfa twf fel sydd gan y brifddinas-ranbarth, lle gall fuddsoddi neu benderfynu defnyddio cyllid

mewn gwahanol ffyrdd ar gyfer pethau y mae'n teimlo sy'n bwysig ar y pryd. Nododd felly fod hynny'n dod gyda rhai manteision a rhai heriau.

Tynnodd sylw hefyd at rwystredigaeth ynghylch y ffordd yr oedd chwyddiant wedi cael ei drin. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Fargen wedi profi chwyddiant uchel iawn nad oedd neb wedi'i ragweld, gan nodi nad oes unrhyw gydnabyddiaeth o hynny o ran unrhyw hyblygrwydd yn y cyllid gan Lywodraeth ganolog na Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r gwiriad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â chynnydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Roedd Aelodau'n falch o glywed bod y Fargen Ddinesig yn cefnogi'r gymuned ym Mhort Talbot a gweithwyr sydd wedi colli eu swyddi. Fodd bynnag, byddem yn awyddus i glywed ymatebion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i rai o'r pwyntiau a godwyd gan y Fargen ynghylch yr heriau y mae'n eu hwynebu.

Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU nodi'r canlynol:

- Eu barn ar yr amodau gwahanol sydd gan gytundebau Bae Abertawe a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac unrhyw ystyriaethau posibl ynghylch hyn yn y dyfodol.
- Eu safbwynt ar effaith chwyddiant ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe, a'r tair bargen arall yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw gyllid ychwanegol y gallent ei gyflenwi neu fesurau lliniaru y gallent ei wneud i dargedau cyflawni.

**Bargen Twf Canolbarth Cymru**

Bargen Twf Canolbarth Cymru yw'r ieuengaf o Fargeinion Twf Cymru, a gafodd ei chwblhau yn 2022. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Tyfu Canolbarth Cymru i'r Pwyllgor yn nodi bod y Fargen Twf wedi dechrau bwrw ati o ddifri yn y cam cyflawni, gyda phenderfyniadau buddsoddi ddiwedd 2024 yn arwain at brosiectau'n symud ymlaen i'r cam cyflawni.

Yn y dystiolaeth ysgrifenedig gan Tyfu Canolbarth Cymru tynnwyd sylw at y ffaith bod y dirwedd economaidd yng Nghanolbarth Cymru yn cynnig heriau unigryw, ac awgrymwyd bod mynediad at fuddsoddiad y sector preifat dan anfantais o'i gymharu â'r amrywiaeth economaidd ar hyd coridorau'r M4 a'r A55 a ffin Lloegr.

Yn y sesiwn dystiolaeth, dywedodd Tyfu Canolbarth Cymru wrth y Pwyllgor fod yn rhaid dangos rhywfaint o eglurder o ran gweledigaeth a rhywfaint o hyder er mwyn denu buddsoddiad ychwanegol i'r ardal. Nododd nad yw'r rhaglen am oedi a'i bod eisiau bod â gweledigaeth glir ac yn feiddgar, ac y bydd drwy wneud hynny yn sicrhau bod y bwlch ariannu hwnnw yn cau. Dywedodd nad oedd am gamarwain drwy ddangos gorhyder a gwneud i'r Pwyllgor feddwl bod staff y Fargen yn drahaus ynghylch ei dull, ond bod angen dangos hyder er mwyn denu buddsoddiad.

O safbwynt llywodraethu, mae Bargen Twf Canolbarth Cymru yn eithriad. Maen wedi gwneud penderfyniad penodol i beidio â symud rheolaeth o'r Fargen i'w Chyd-bwyllgor Corfforaethol. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig yn nodi y byddai trosglwyddo'r Fargen Twf i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn arwain at gostau sylweddol a heriau gweithredu (oherwydd y ffaith bod y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn endid cyfreithiol ar wahân) ac nid yw'n cael ei ystyried yn gam a fyddai'n fuddiol i'r rhanbarth ar hyn o bryd. Wrth gwrs, penderfyniad i'r awdurdodau lleol yw hwn, fodd bynnag, bydd y Pwyllgor yn monitro'r dull hwn i weld a fydd yn effeithio ar yr hyn a gyflawnir o'i gymharu â'r Bargeinion eraill, ac os felly, sut. Byddwn hefyd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wneud yr un peth.

Gan mai dim ond newydd ddechrau ei cham cyflawni y mae Bargen Twf Canolbarth Cymru, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch y Fargen fel rhan o'r gwiriad hwn. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb mewn gweld y dull llywodraethu gwahanol, h.y. peidio â throsglwyddo Bargen Canolbarth Cymru i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, a byddem yn awyddus i ddeall safbwynt y ddwy lywodraeth ar hynny. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cynnydd Bargen Twf Canolbarth Cymru.

O ran y dystiolaeth a ddarparwyd ynghylch Bargen Twf Canolbarth Cymru, hoffai'r Pwyllgor i Lywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU:

- Nodi unrhyw safbwyntiau sydd gan y llywodraethau ar y penderfyniad i beidio â throsglwyddo rheolaeth Bargen Twf Canolbarth Cymru i'w Chyd-bwyllgor Corfforaethol;
- Monitro'r dull llywodraethu gwahanol hwn ar gyfer Canolbarth Cymru o'i gymharu â'r tair bargen arall i weld a oes unrhyw fanteision neu anfanteision clir rhwng y dulliau; a
- Sicrhau bod yr heriau unigryw sy'n wynebu Bargen Twf Canolbarth Cymru, megis amrywiaeth economaidd a mynediad at fuddsoddiad sector preifat fel yr amlinellwyd yn eu tystiolaeth, yn cael eu hystyried mewn unrhyw waith parhaus gyda'r ddwy lywodraeth a'r gefnogaeth a gynigir ganddynt i'r Fargen.

### Dilyniant o ran Arweinyddiaeth Wleidyddol

Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch effaith newidiadau mewn arweinyddiaeth wleidyddol ar allu'r bargeinion twf i gyflawni. Mae'r Cynghorydd Rob Stewart wedi bod wrth y llyw ym Margen Dinas Bae Abertawe ers ei sefydlu ac rydym yn teimlo y gallai cael dilyniant o ran arweinyddiaeth wleidyddol sy'n hyrwyddo gweledigaeth benodol fod yn un o'r rhesymau pam mae Cytundeb Dinas Bae Abertawe yn perfformio'n dda.

Mae'r bargeinion twf yn cynrychioli ardaloedd ag amrywiaeth o safbwyntiau gwleidyddol ac maent yn brosiectau hirdymor a fydd yn cael eu cyflawni dros sawl cylch etholiadol o ran llywodraeth leol, y Senedd a San Steffan. Wrth gwrs, bydd arweinyddiaeth wleidyddol yn newid yn yr amser hwnnw ac

mae hyn yn rhan bwysig o ddemocratiaeth. Mae hefyd yn gywir bod arweinwyr gwleidyddol newydd yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael iddynt i gyflawni'r ymrwymiadau y maent wedi'u gwneud i'w hetholwyr. Fodd bynnag, mae hyn yn creu tensiwn gyda natur hirdymor y bargeinion a buddsoddiad economaidd yn fwy cyffredinol.

Felly, mae her yma i bob un o'r pedair bargen twf – suti gynnal gweledigaeth hirdymor a chof corfforaethol er mwyn cefnogi eu gwaith cyflawni. Mae hwn yn fater y bydd angen i'r pedair bargen ei wynebu os ydynt am gyflawni yn y tymor hir.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r pedair cytundeb fynd i'r afael â'r broblem hon. Rydym yn argymell:

- Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio gyda'r pedair bargen twf i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod arferion gorau'n cael eu rhannu i gefnogi'r bargeinion wrth bontio rhwng newidiadau arweinyddiaeth wleidyddol.

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r llythyr hwn yn adolygu statws presennol y pedair bargen. Gan fod y cytundebau hyn yn gyfrifol am swm sylweddol o gyllid cyhoeddus ac mae ganddynt dargedau datblygu economaidd nodedig, byddwn yn gwerthfawrogi eich ymateb i'r pwyntiau a godwyd ac unrhyw safbwyntiau yr hoffech eu rhannu ar y mater.

Rydw i wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Cynghorydd Charlie McCoubrey, Is-gadeirydd Uchelgais Gogledd Cymru; y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, Cadeirydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; y Cynghorydd Rob Stewart, Cadeirydd Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe; a'r Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Y Cynghorydd Charlie McCoubrey, Is-gadeirydd Uchelgais Gogledd Cymru

Y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, Cadeirydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Y Cynghorydd Rob Stewart, Cadeirydd Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

Y Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/PO/447/2025

Andrew R T Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

16 Medi 2025

Annwyl Andrew,

Ysgrifennais at y Gweinidog Shanks, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net ar 2 Medi i roi fy nghydsyniad i'r cynnwys yn y Datganiad o Flaenoriaethau Strategol i Great British Energy faterion a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r Datganiad o Flaenoriaethau Strategol bellach wedi'i gyhoeddi a gellir dod o hyd iddo yma.

Mae adran 5 o Ddeddf Great British Energy 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi Datganiad o Flaenoriaethau Strategol (SSP) ar gyfer Great British Energy (GBE). Mae adran 5(6) yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i gynnwys yn yr SSP unrhyw beth sy'n ymwneud â mater, y byddai darpariaeth amdano o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan y Senedd. Ysgrifennodd y Gweinidog Shanks ataf yn gofyn am ganiatâd Gweinidogion Cymru i gynnwys y cyfeiriadau at 'ynni glân' yn yr SSP i'r graddau y maent yn ymwneud â thechnolegau dal, defnyddio a storio carbon.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i lwyddiant GBE a bydd yn bwysig i Lywodraeth y DU gyflawni ei hymrwymiad y bydd GBE yn gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â llywodraethau datganoledig, llywodraeth leol a chymunedau. Rwyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad yn yr SSP y bydd gwaith GBE yn ychwanegu at ein llwyddiannau ynni lleol a chymunedol sydd wedi bod yn ffocws brwd yn ein gwaith yng Nghymru hyd yn hyn.

Roedd fy llythyr at y Gweinidog Shanks yn tynnu sylw at fy marn bod y sail y byddai Gweinidogion Cymru yn cydsynio i'r SSP lawer ehangach na'r hyn a amlygwyd yn ei lythyr a bod cymhwysedd y Senedd o ran materion y mae'r SSP wedi cyffwrdd arnynt yn mynd y tu hwnt i'r rhai sy'n ymwneud â thechnolegau dal, defnyddio a storio carbon yn unig.

Dywedais hefyd fod y paragraff sy'n disgrifio gweithgarwch ynni yma yng Nghymru yn llai manwl nag yr hoffwn ac rwyf wedi gofyn am waith ychwanegol i nodi sut y bydd GBE yn gweithio gyda ni i gefnogi cyflawni'r weledigaeth strategol a nodir mewn cynlluniau gofodol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol mewn perthynas â'n huchelgeisiau cyffredin o ran ynni a hinsawdd.

Nid yw adran Llywodraethu'r SSP yn cyfeirio at sut y bydd gweithgareddau GBE yn cyd-fynd yn agos â gweithgareddau datganoledig, yn enwedig o ystyried y rhyngwyneb cymhleth rhwng cylch gorchwyl GBE a'r meysydd datganoledig yng Nghymru. Nid SSP lefel uchel yw'r lle i nodi'r manylyn hwn. Fodd bynnag, byddaf yn gofyn i'n swyddogion barhau i weithio ar hyn i nodi proses sy'n egluro

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sut y bydd gweithgareddau GBE yn ategu polisïau a phrosesau cyflawni Cymru a sefydlu proses datrys anghydfodau y byddwn ar y cyd yn fodlon arni.

Mae rôl GBE yn ein dyfodol ynni yn bwysig i'r DU gyfan ac mae ei lwyddiant yn rhywbeth y gall pob Llywodraeth y DU gyfrannu ato. Mae fy swyddogion eisoes yn gweithio i rannu eu profiad o arbenigedd cyflenwi gyda GBE ac rwyf wedi mynegi fy nymuniad y bydd GBE yn adeiladu ar y cydweithrediad cadarnhaol hyd yma i gynyddu graddfa a chyflymder y gwaith a wnaed yn angenrheidiol gan yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ynni.

Roedd y cyflymder hwnnw ar yr achlysur hwn yn golygu bod Llywodraeth y DU wedi gofyn i'r SSP gael ei ystyried o fewn amserlenni byr iawn. Roeddwn yn siomedig nad oedd digon o amser i ysgrifennu at y Pwyllgor a gwahodd eich ystyriaeth cyn fy mhenderfyniad. Er fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r SSP, rwyf wedi gofyn am waith ychwanegol ar lywodraethu i roi eglurder ar sut y bydd polisïau a blaenoriaethau Cymru yn cael eu hymgorffori yng ngwaith GBE yn y dyfodol. Gyda hynny mewn golwg, rwy'n croesawu unrhyw farn a allai fod gennych chi a'r Pwyllgor ar yr SSP fel y'i cyhoeddwyd. Bydd fy swyddogion hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod amser ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer iteriad nesaf yr SSP er mwyn caniatáu amser i ymgysylltu â Phwyllgorau'r Senedd.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a byddaf yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig i hysbysu Aelodau'r Senedd.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning